




Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Cynllun Taliadau Bach Galluedd Meddyliol

Ymateb y Llywodraeth

Cyhoeddwyd yr ymateb hwn ar 28 Chwefror 2023





Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Cynllun taliadau bach Galluedd Meddyliol

Ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Mae'r wybodaeth hon ar gael hefyd yn <https://consult.justice.gov.uk>

Cynnwys

Manylion cyswllt	3
Rhagair y Gweinidog	4
Crynodeb gweithredol	6
Cefndir	10
Trosolwg ar yr ymatebion	11
Cyflwyniad	13
Ymatebion i gwestiynau penodol	16
Ymateb y llywodraeth	54
Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr	58
Atodiad B: Datganiad cydraddoldeb	59
Atodiad C: Prawf effaith ar y Gymraeg	67
Asesiad Effaith	68
Egwyddorion ymgynghori	69

Manylion cyswllt

Y ddogfen hon yw'r adroddiad ôl-ymgynghori ar y papur ymgynghori, 'Cynllun taliadau bach galluedd meddyliol'.

Bydd yn ymdrin â'r canlynol:

- cefndir yr adroddiad
- crynodeb o'r ymatebion i'r adroddiad
- ymateb manwl i'r cwestiynau penodol a godwyd yn yr adroddiad
- y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn

Mae mwy o gopïau o'r adroddiad hwn ac o'r papur ymgynghori ar gael drwy gysylltu â'r **tîm polisi galluedd meddyliol** yn y cyfeiriad isod:

Tîm Polisi Galluedd Meddyliol

Post Point 7.25

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

102 Petty France

Llundain SW1H 9AJ

E-bost: MCAsmallpaymentsconsultation@justice.gov.uk

Mae'r adroddiad hwn ar gael hefyd yn: <https://consult.justice.gov.uk/>

Gellir gwneud cais am gopïau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill drwy e-bostio:

MCAsmallpaymentsconsultation@justice.gov.uk

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod.

Rhagair y Gweinidog

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn ddarn arwyddocaol o ddeddfwriaeth sy'n cefnogi pobl agored i niwed nad ydynt efallai'n gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Ers dod i rym yn 2007, mae wedi bod yn arf hanfodol i unigolion sydd heb allu i ddiogelu eu buddiannau a'u grymuso, lle bo hynny'n bosibl, i wneud eu penderfyniadau eu hunain.

Mae egwyddor hirsefydlog bod yn rhaid i oedolyn fod ag awdurdod cyfreithiol priodol i gael mynediad at neu i ddelio ag eiddo rhywun arall. Os nad oes gan yr oedolyn alluedd meddyliol, mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (y Ddeddf) yn darparu fframwaith i adael i'r oedolyn roi awdurdod cyfreithiol drwy benodi atwrneiaeth arhosol, tra bo'r galluedd meddyliol yn dal i fod ganddo, neu fel y gall trydydd partïon gael awdurdod cyfreithiol drwy wneud cais i'r Llys Gwarchod.

Rydym wedi clywed pryderon gan wasanaethau ariannol a'r rheini sy'n cynrychioli pobl hŷn a'r rheini sydd ag anableddau bod y broses ar gyfer cael gorchymyn y Llys Gwarchod lle nad yw rhywun yn gallu gwneud penderfyniadau drosto'i hun yn anghymesur ar gyfer cael gafael ar symiau bach neu drefnu taliadau syml. Clywsom hefyd gan rieni ac ymgyrchwyr dros blant ac oedolion ifanc heb alluedd o ran yr heriau o gael gafael ar Gronfeydd Ymddiriedolaeth Plant sydd wedi aeddfedu ar eu rhan.

Rwy'n deall bod gofalu am unigolyn heb alluedd yn rôl sy'n gofyn llawer, felly dylai'r ddeddfwriaeth a'r prosesau sydd wedi cael eu rhoi ar waith i gefnogi unigolion a'u teuluoedd fod mor hygyrch â phosibl. Dyna pam rydym wedi ymgynghori i gasglu safbwyntiau am y problemau gyda'r prosesau sy'n bodoli ar hyn o bryd ac a fyddai proses ar wahân i gael gafael ar symiau bach o arian yn mynd i'r afael â hyn.

Drwy gydol yr ymgynghoriad, rydym wedi ymgysylltu â sefydliadau ar draws y sectorau elusennol, cyfreithiol ac ariannol, grwpiau sy'n cynrychioli pobl hŷn a'r rheini sydd ag anableddau, rhieni a gofalcwyr di-dâl. Hoffwn ddiolch i'r grwpiau hyn am eu cyfraniadau, am eu hamser ac am ystyried y dystiolaeth maent wedi'i darparu ar gyfer yr ymgynghoriad. Mae eu mewnbwn wedi bod yn amhrisiadwy wrth ein helpu i lunio ein hymateb.

Mae'r ymgynghoriad wedi rhoi tystiolaeth glir i ni o'r heriau sy'n cael eu hwynebu yn y system bresennol. Rydym wedi clywed yn gyson iawn fod ffurflenni cais Eiddo a Materion Ariannol y Llys Gwarchod yn hir a chymhleth, a bod yr amser rhwng llenwi'r ffurflen gais a gwneud y gorchymyn terfynol yn rhy hir ac yn rhy anghymesur ar gyfer y symiau sydd o dan sylw. Mae hefyd wedi dod i'r amlwg, drwy'r ymgynghoriad, bod nifer o deuluoedd a gofalcwyr, yn enwedig y rheini sydd â phlant sydd bron yn 18 oed, ddim yn ymwybodol o'r Ddeddf a'r angen i gael awdurdod cyfreithiol i reoli materion ariannol pobl eraill.

Y ffordd o ddelio â'r heriau o ran cael gafael ar daliadau bach yw rhoi sylw i'r rhwystrau hyn. Dyna pam rydym yn gweithio gyda'r farnwriaeth i wella'r broses ar gyfer gwneud cais

am orchymyn eiddo a materion ariannol y Llys Gwarchod. Mae hyn yn cynnwys gwneud ffurflenni'n haws i'w llenwi a chefnogi cynlluniau peilot digidol sy'n cael eu cynnal i gyflymu'r broses o wneud cais. Hefyd, mae angen codi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol, ac rydym wedi ymrwymo i weithio gydag adrannau eraill o'r llywodraeth i sicrhau bod teuluoedd a gofalwyr yn cael yr wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i baratoi yn y dyfodol ar gyfer gwneud penderfyniadau, yn enwedig helpu rhieni a gofalwyr sy'n cefnogi oedolion ifanc heb alluedd wrth iddynt dyfu'n oedolion. Mae'n hanfodol bod teuluoedd a'r rhai sy'n rhoi gofal yn ymgysylltu â'r Ddeddf cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod darpariaethau a dulliau gwarchod digonol yn cael eu rhoi ar waith.

Rwy'n gwybod y bydd rhai pobl yn teimlo'n rhwystredig nad ydym yn cyflwyno cynllun ar wahân ar gyfer taliadau bach. Rydym wedi gwrandao ar bryderon rhieni a theuluoedd sy'n ceisio cael gafael ar daliadau bach ar ran y person maent yn gofalu amdano, ac rydym yn gwerthfawrogi bod y broses o gael gafael ar yr awdurdod cyfreithiol sydd ei angen ar hyn o bryd i wneud penderfyniadau ar ei ran ddim mor syml ag y gallai fod. Rydym yn gwybod y bydd y rhan fwyaf o rieni, perthnasau a gofalwyr bob amser yn gweithredu er budd pennaf eu hanwyliaid. Ond, yn anffodus, ni fydd hyn bob amser yn wir, ac mae'n hanfodol bod y dulliau gwarchod iawn ar gael i ddiogelu lles ac asedau pobl agored i niwed. Rwy'n credu mai'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r pryderon yw drwy roi sylw i'r hyn sy'n achosi'r broblem, mor gyflym ac mor effeithiol â phosibl, fel yr amlinellir yn ymateb y llywodraeth.

Mae'r camau a amlinellir yn ategu'r Ddeddf a'i hegwyddorion i rymuso pobl heb alluedd i gael eu cefnogi i wneud eu penderfyniadau eu hunain pan fo hynny'n bosibl, ac i'w teulu a'u gofalwyr wneud penderfyniadau er eu budd pennaf pan nad yw hynny'n bosibl. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cynnal diogelwch presennol y system i warchod unigolion agored i niwed rhag twyll, cam-drin a phwysau gormodol, gan gynnwys gorfodaeth. Bydd gwella proses bresennol y Llys Gwarchod hefyd yn helpu rhieni i wneud cynlluniau tymor hir i ofalu am aelodau o'r teulu heb alluedd, gan eu helpu i wneud y trefniadau cyfreithiol angenrheidiol mor fuan â phosibl.

Rwy'n hyderus y bydd y ffordd ymlaen yn arwain at well canlyniadau i rieni a theuluoedd sy'n ceisio cael mynediad at arian, gan gynnwys dulliau gwarchod i bobl agored i niwed.

Crynodeb gweithredol

Deddf Galluedd Meddyliol 2005

1. Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (y Ddeddf) wedi'i chyhoeddi fel deddfwriaeth a fu'n drobwynt i hawliau statudol pobl sydd efallai â diffyg galluedd meddyliol – boed hynny am resymau anabledd dysgu, anhwylderau sbectrwm awtistiaeth, dementia, anaf i'r ymennydd neu nam dros dro. Mae'r Ddeddf yn berthnasol i bobl 16 oed a hŷn. Mae'n rhoi'r unigolyn wrth galon y penderfyniadau ac yn cyflwyno newid sylweddol i hawliau cyfreithiol pobl sydd â diffyg galluedd o bosibl.
2. Athroniaeth sylfaenol y Ddeddf yw grymuso pobl i wneud eu penderfyniadau eu hunain lle bo hynny'n bosibl. Ei hegwyddor gyntaf yw rhagdybio bod gan bawb rywfaint o alluedd meddyliol. Mae'n bwysig i ni beidio ag erydu'r egwyddor hon drwy dybio'n awtomatig nad oes gan oedolyn gyda diffyg galluedd unrhyw alluedd o gwbl i wneud penderfyniadau drosto'i hun, a dirprwyo ei bwerau penderfynu i rywun arall.
3. Lle bynnag y bo'n bosibl, mae egwyddorion y Ddeddf yn annog pobl sy'n gofalu am unigolion i'w cefnogi i wneud eu penderfyniadau eu hunain lle bo angen, neu i fynegi eu dymuniadau fel y gall eraill wneud penderfyniadau ar eu rhan. Mae'r Ddeddf yn cynnwys rhagofalon i sicrhau bod penderfyniad a wneir, neu weithredu ar ran rhywun heb alluedd i wneud penderfyniad neu weithredu drosto'i hun, er lles gorau'r unigolyn. I'r unigolion sydd â galluedd ac sydd eisiau paratoi ar gyfer amser pryd efallai na fydd ganddynt alluedd yn y dyfodol, mae'r Ddeddf yn gadael iddynt wneud hyn drwy benodi atwrnai o dan atwrneiaeth arhosol. I lawer, gyda'r cymorth iawn a'r adnoddau iawn, mae hyn yn gwbl bosibl. Os nad yw'n bosibl, dylid gwneud cais i'r Llys Gwarchod i awdurdodi dirprwy i wneud penderfyniadau ar ran y person.
4. Mae'n egwyddor gyfreithiol hirsefydlog bod yn rhaid i oedolyn fod ag awdurdod cyfreithiol priodol i gael mynediad at neu i ddelio ag eiddo oedolyn arall. Nid oes llawer yn ymwybodol o hyn gan dybio bod ganddynt fynediad awtomatig yn rhinwedd y ffaith eu bod yn rhiant, yn fab, yn ferch, yn gymar neu'n bartner sifil. Os oes gan oedolyn alluedd, gellir rhoi awdurdod cyfreithiol drwy atwrneiaeth gyffredinol. Mae'r atwrneiaeth gyffredinol yn ddogfen gyfreithiol sy'n gadael i unigolyn roi awdurdod cyfreithiol i'w atwrnai i wneud penderfyniadau a gweithredu ar ei ran yng nghyswllt ei eiddo a'i asedau – fel pe bai'n gwneud y penderfyniadau hynny ei hun. Mae'n ddilys dim ond tra bydd gan yr unigolyn alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau ei hun ac ni ellir ei ddefnyddio ar ôl colli galluedd. Mae atwrneiaeth arhosol yn debyg i atwrneiaeth gyffredinol ond y gwahaniaeth pwysig yw y gall barhau i gael ei ddefnyddio ar ôl i'r unigolyn golli galluedd meddyliol. Daw'r ddau bŵer i ben pan fydd yr unigolyn yn marw.

5. Mewn achosion lle nad oes gan yr oedolyn alluedd, y Ddeddf yw'r fframwaith i ofyn am awdurdod cyfreithiol drwy wneud cais i'r Llys Gwarchod. Y Llys Gwarchod yw'r llys arbenigol sy'n delio â phopeth yn ymwneud â diffyg galluedd meddyliol. Pan fydd y cais wedi'i wneud, gall y llys wneud 'gorchymyn untro' yn awdurdodi gwneud penderfyniad penodol ar ran y person, neu benodi dirprwy i wneud penderfyniadau parhaus naill ai'n ymwneud ag eiddo a materion ariannol neu les personol y person.

Materion yn ymwneud â thaliadau bach o dan y Ddeddf

6. Mae cwmnïau gwasanaethau ariannol a grwpiau oed ac anabledd wedi lleisio pryderon bod prosesau'r Llys Gwarchod ar gyfer cael awdurdod cyfreithiol i wneud penderfyniadau ar ran unigolion heb alluedd meddyliol yn creu rhwystrau i gael gafael ar daliadau bach, untro'n unig. Mae llawer o'r pryder am gael mynediad untro at asedau gwerth isel yn ymwneud â rhieni sydd am gael mynediad at gyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Plant sydd wedi aeddfedu, yn enw oedolion ifanc sydd heb alluedd meddyliol. O ganlyniad, penderfynodd y llywodraeth ystyried a oedd dadl dros gael proses amgen er mwyn awdurdodi rhyddhau taliadau bach o wahanol gyfrifon ariannol i dderbynyddion addas, ac os felly sut fath o broses a fyddai. Cafodd y cynnig hwn ei ystyried yn ymgynghoriad y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar daliadau bach, a oedd yn rhedeg o 16 Tachwedd 2021 i 12 Ionawr 2022.
7. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi dadansoddi'r ymatebion ac effaith ein cynigion polisi yn erbyn y themâu a godwyd gan y rhai a ymatebodd. Rydym hefyd wedi ystyried effaith bosibl y newidiadau a awgrymwyd gan rai ymatebwyr.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

8. Er y teimlai ymatebwyr fod angen gwella'r broses bresennol o wneud cais i'r Llys Gwarchod, prin oedd y consensws ar gynigion ar gyfer dylunio'r cynllun taliadau bach, y rhagofalon oedd eu hangen, a'r uchafswm y gellid ei dynnu allan. Awgrymodd rai ymatebwyr y gellid ychwanegu nodweddion i'r cynllun a fyddai'n arwain at broses debyg iawn i broses bresennol y Llys Gwarchod.

Egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol

9. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cydnabod pwysigrwydd y dulliau gwarchod yn y Ddeddf ac yn cefnogi'r egwyddorion. Mae hyn wedi'i ategu yn yr ymgysylltu a gawsom â rhanddeiliaid allweddol yn dilyn y broses ymgynghori.
10. Drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad, daeth yn glir fod y diffyg mynediad at daliadau bach wedi codi oherwydd problemau gyda gofynion gweithredol y broses bresennol o wneud cais i'r Llys Gwarchod, a diffyg ymwybyddiaeth o'r Ddeddf, yn hytrach nag

oherwydd gwrthwynebiad i egwyddorion y Ddeddf. Roedd ymatebwyr yn poeni am nifer, cymhlethdod a pha mor hir oedd ffurflenni cais y Llys Gwarchod, eu hargraff o'r gost o wneud y cais a'r amser a gymerir i dderbyn y gorchymyn llys. Hefyd, gallai'r poeni a'r camddealltwriaeth drwy orfod mynychu'r llys eu hunain, a'r teimlad o gael eu 'barnu', arwain at i rai pobl benderfynu peidio â gwneud cais am yr awdurdod cyfreithiol. Roedd diffyg ymwybyddiaeth hefyd o'r trefniadau dileu ffioedd ac esemptiadau y gallai ymgeiswyr fod yn gymwys ar eu cyfer.

Ymwybyddiaeth o'r Ddeddf

11. Dywedodd rhai ymatebwyr fod diffyg ymwybyddiaeth o'r Ddeddf wedi'i gwneud yn anodd i bobl ddeall bod angen cael awdurdod cyfreithiol i gael mynediad at arian i'r bobl yr oeddent yn gofalu amdanynt. Er enghraifft, bydd angen i ofalwyr am blant neu bobl ifanc heb alluedd fod ag awdurdod i wneud penderfyniadau ar eu rhan ar ôl iddynt droi'n 18 oed. Ond daeth yn glir efallai nad oes gan rai rhieni a gofalwyr ddigon o wybodaeth am y camau sydd angen eu cymryd i wneud penderfyniadau ar ran eu plentyn pan fydd yn oedolyn. Mae'r llywodraeth yn cydnabod y gallai hyn fod yn broblem, yn enwedig i deuluoedd sydd wedi arfer â gwneud penderfyniadau ar ran eu plentyn na fydd, oherwydd ei natur agored i niwed, efallai'n profi'r cerrig milltir arferol wrth droi'n oedolyn, fel dechrau gweithio neu adael y cartref am brifysgol. O'r herwydd mae llawer o rieni'n teimlo sioc a rhwystredigaeth o fethu â chael mynediad at gyfrifon eu plant ar ôl iddynt droi'n 18 oed.
12. Mae'r llywodraeth yn ystyried mai'r diffyg ymwybyddiaeth hwn - yn gyntaf o'r ffaith bod angen cael awdurdod cyfreithiol i gael mynediad at arian oedolyn arall, ac yn ail o'r Ddeddf yn gyffredinol - yw'r prif beth sy'n atal pobl rhag cael gafael ar arian ar ran unigolyn arall.

Rhwystrau gweithredol

13. Dangosodd yr ymatebion mai'r prif bethau sy'n achosi methu â chael gafael ar asedau gwerth isel yw rhwystrau gweithredol yn y broses o wneud cais i'r llys. Fel yr esboniwyd, roedd ymatebwyr yn poeni am nifer, cymhlethdod a pha mor hir oedd ffurflenni cais y Llys Gwarchod, eu hargraff o'r gost sy'n gysylltiedig â gwneud y cais a'r amser a gymerir i dderbyn y gorchymyn llys. Mae'r llywodraeth yn ystyried mai'r ffordd orau o roi sylw i hyn yw drwy weithio â'r Llys Gwarchod i wella'r broses ar gyfer ceisiadau eiddo a materion ariannol.

Y ffordd ymlaen

14. Cyfrifoldeb y farnwriaeth yw ffurflenni a phrosesau llys ac mae darparu gwasanaethau'n well a rhoi sylw i bryderon am hygyrchedd ffurflenni'n flaenoriaeth. Gwelwn hyn o'r camau a gymerodd y Llys Gwarchod i newid y broses o wneud cais am orchmynion dirprwy ar gyfer eiddo a materion ariannol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Llys Gwarchod wedi bod yn peilota proses ddigidol newydd ac wedi

newid ei ofynion hysbysu, sydd wedi arwain at amseroedd prosesu tipyn llai (o 24 i 8 wythnos). Cyflwynwyd y broses ddigidol i ddefnyddwyr proffesiynol y llys fesul cam ym mis Ionawr 2023, ac i'r cyhoedd ym mis Chwefror 2023. Mae rhan o'r newid yma'n cynnwys caniatáu i ddefnyddwyr lenwi rhai o'r ffurflenni llys yn electronig a chyflwyno gweddill y gwaith papur yn ddigidol. Er mwyn hwyluso'r newidiadau, mae fersiynau papur a digidol y ffurflenni llys yn cael eu hadolygu er mwyn symleiddio'r cynnwys a dileu unrhyw ddyblygu. Proses o berffeithio wrth fynd yw hyn a bwriedir profi ac adolygu'r ffurflenni'n barhaus i wneud gwelliannau ar sail adborth a ddaw i law.

15. Dylai'r newidiadau hyn wneud y ffurflenni'n fwy hygyrch a haws eu llenwi gan hefyd leihau'r amseroedd prosesu. Bydd y llywodraeth yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan brif weithredwr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF er mwyn parhau i adolygu cynnydd y gwelliannau hyn.
16. Er mwyn mynd i'r afael â diffyg ymwybyddiaeth o'r Ddeddf, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn lansio rhaglen codi ymwybyddiaeth. Byddwn yn ymgysylltu ag adrannau eraill y llywodraeth, darparwyr gwasanaethau ariannol ac elusennau er mwyn i'r cyhoedd fod yn ymwybodol o'r angen i gael awdurdod cyfreithiol ar ran oedolion heb alluedd, ac yn achos pobl ifanc 16-17 oed heb alluedd, eu bod yn gwneud hynny mewn da bryd cyn iddynt droi'n 18 oed. Mae rhieni a gofawyr am unigolion heb alluedd yn cael cyswllt â nifer o wahanol wasanaethau ac asiantaethau, fel yr Adran Gwaith a Phensiynau, ysgolion anghenion addysgol arbennig ac anabled, banciau a gweithwyr cymdeithasol. Bydd ymgysylltu a gweithio ar y cyd â'r grwpiau hyn yn bwysig i sicrhau bod gan rieni a gofawyr fynediad at y gefnogaeth a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i gynorthwyo'r person heb alluedd.

Casgliad

17. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn credu y bydd proses ddigidol o wneud cais i'r Llys Gwarchod a chodi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf yn mynd at wraidd y broblem (rhwystrau gweithredol a diffyg ymwybyddiaeth) a datrys llawer o'r heriau y soniodd ymatebwyr amdanynt yn yr ymgynghoriad. O ganlyniad, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn canolbwyntio ar y prif rwystrau i gael mynediad at daliadau, ac nid yn ceisio datblygu cynllun taliadau bach. Bydd y mesurau hyn yn sicrhau y byddwn yn gwarchod yr egwyddor gyfreithiol bod yn rhaid i oedolyn fod ag awdurdod cyfreithiol i gael mynediad at neu ddelio ag eiddo sy'n perthyn i oedolyn arall, gan sicrhau bod y rhai sydd angen cael yr awdurdod cyfreithiol yma'n gallu gwneud hynny'n hawdd ac amserol.

Cefndir

18. Cyhoeddwyd y papur ymgynghori, 'Cynllun taliadau bach galluedd meddyliol', ar 16 Tachwedd 2021.¹ Roedd yn gwahodd sylwadau ar gynllun taliadau bach posibl, er mwyn i drydydd partïon gael mynediad at symiau bach o arian mewn cyfrif heb fod angen cael y mathau o awdurdod cyfreithiol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.
19. O dan ein cynigion, byddai'r cynllun taliadau bach yn:
 - caniatáu taliadau o un cyfrif am gyfnod o chwe mis
 - caniatáu taliadau hyd at uchafswm o £2,500 – swm sy'n ddigon i gynnwys y rhan fwyaf o Gronfeydd Ymddiriedolaeth Plant sydd wedi aeddfedu, ac sydd hefyd yn unol â chynigion blaenorol
 - caniatáu un estyniad ar y cyfnod mynediad, am chwe mis arall, ond dim ond os na chyrhaeddwyd yr uchafswm o £2,500
 - atal mynediad at yr un cyfrif neu gyfrifon eraill gan yr unigolyn, gan yr un ymgeisydd neu ymgeisydd gwahanol
 - cael ei redeg gan gwmnïau gwasanaethau ariannol (fel banciau, cymdeithasau adeiladu a sefydliadau e-arian), er mwyn gallu talu neu dynnu arian allan o gyfrifon arian parod yn bennaf
 - rhoi mynediad i rywun a allai brofi ei fod yn addas, nid dim ond aelodau o'r teulu
 - gofyn i ymgeiswyr ystyried a oedd trefniant dirprwy'n angenrheidiol neu'n briodol i reoli cyfrifon yn fwy hirdymor, a'u hannog i wneud cais i'r Llys Gwarchod fel rhan o'r broses
20. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 12 Ionawr 2022. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion, gan gynnwys sut y dylanwadodd y broses ymgynghori ar y penderfyniadau terfynol ar y cynnig a'r camau nesaf.
21. Ni wnaeth yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad unrhyw sylw ar yr asesiad effaith. Felly, nid yw asesiad effaith y cam ymgynghori wedi cael ei ddiwygio. Mae fersiwn Saesneg o'r papur ymateb ar gael hefyd.
22. Mae rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad A.

¹ https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/mental-capacity-act-small-payments-scheme/supporting_documents/smallpaymentsschemeconsultationcym.pdf

Trosolwg ar yr ymatebion

23. Derbyniwyd cyfanswm o 225 o ymatebion i'r papur ymgynghori. Ar ôl adolygu'r ymatebion hyn, cafodd dau eu hadnabod i fod naill ai'n ymatebion dyblyg neu wag ac felly ni chawsant eu cynnwys. Mae hyn yn golygu mai 223 o ymatebion a ddadansoddwyd. Cyflwynwyd 190 ohonynt drwy'r hwb ymgynghori, derbyniwyd 32 drwy e-bost a daeth un yn y post.
24. Gofynnwyd i'r ymatebwyr enwi eu sefydliad fel ein bod yn gwybod ym mha gapasiti yr oeddent yn ymateb i'r ymgynghoriad. Rhoddir dadansoddiad o'r ymatebwyr, wedi eu grwpio yn ôl sefydliad, yn nhabl 1.
25. Roedd llawer o'r ymatebwyr hefyd yn rhoi'r rheswm am eu diddordeb yn yr ymgynghoriad. Er enghraifft drwy ddweud eu bod yn aelod o'r cyhoedd ac yna'n rhoi gwybodaeth am eu diddordeb personol fel bod yn ofalwr neu'n rhiant i berson ifanc anabl.
26. Hefyd, cynhaliwyd pedwar cyfarfod a chyfarfod bord gron gweinidogol dros gyfnod yr ymgynghoriad. Gwahoddwyd cynrychiolwyr o gwmnïau ariannol, y sector cyfreithiol ac elusennau i gael rhagor o wybodaeth am y cynllun arfaethedig ac i ofyn cwestiynau i swyddogion polisi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mynychodd 57 o bobl y digwyddiadau hyn. Roedd y cwestiynau a ofynnwyd yn ymwneud â chwmpas a pha mor syml a diogel oedd y cynllun.
27. Yn ein dadansoddiad, rydym wedi myfyrio ar yr amrediad llawn o farn a leisiwyd gan ymatebwyr. Disgrifir cynnwys yr ymatebion yn fwy manwl yn y dadansoddiad manwl o bob cwestiwn.
28. Rhieni a gofalwyr oedd y grŵp mwyaf o ymatebwyr o bell yn y categori 'aelodau o'r cyhoedd', yna cyfreithwyr a chwmnïau gwasanaethau ariannol. Nid yw hyn yn annisgwyl o gofio bod ffocws yr ymgynghoriad ar gael mynediad at arian a phryderon rhieni am gael mynediad at Gronfeydd Ymddiriedolaeth Plant newydd aeddfedu.
29. Dymunwn ddiolch i bawb wnaeth ymateb am eu hamser a'u hymdrech yn cyfrannu i'r ymgynghoriad.

Mathau o ymatebwyr:***Tabl 1**

Atebydd	Nifer yr ymatebion
Rhiant / aelod o'r teulu / gofalwr	72
Heb ddweud	65
Cyfreithiol	21
Sector ariannol	21
Elusen neu'r trydydd sector	10
Unigolyn preifat	9
Awdurdod lleol / Cyngor	9
Ymddiriedolaeth y GIG	6
Staff gofal iechyd eraill / gofal cymdeithasol oedolion a gweithwyr cymdeithasol	5
Sefydliadau eraill	3
Seneddwr	2

* Ar sail gwybodaeth a roddwyd yn adran 'amdanoch chi' yr holiadur, hynny yw, sefydliad.

Cyflwyniad

Galluedd meddyliol a materion ariannol

30. Os oes 'diffyg galluedd meddyliol' ar berson, nid yw'n gallu gwneud penderfyniad penodol neu weithredu drosto'i hun ar yr adeg oherwydd nam ar y meddwl neu ar yr ymennydd. Mae galluedd yn benodol i amser a phenderfyniad. Mae'n golygu bod gan bobl efallai alluedd i wneud rhai penderfyniadau drostynt eu hunain weithiau, ond heb alluedd i wneud penderfyniadau eraill ar adegau eraill.
31. Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (y Ddeddf) yw'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer grymuso, cefnogi ac amddiffyn pobl agored i niwed na fedrant efallai wneud penderfyniadau drostynt eu hunain oherwydd anabledd, salwch neu anaf, neu i baratoi ar gyfer yr amser pryd na fedrant yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn berthnasol i bawb sy'n 16 oed a hŷn sy'n byw yng Nghymru a Lloegr sydd efallai heb alluedd i wneud penderfyniadau penodol drostynt eu hunain. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnal yr egwyddor hanfodol mewn cyfraith eiddo bod yn rhaid i oedolyn fod ag awdurdod cyfreithiol priodol i ddelio ag eiddo a materion ariannol oedolyn arall. Mae'r pethau hyn yn rhagofalon hanfodol i amddiffyn pobl agored i niwed a'u hasedau.
32. Gellir rhoi awdurdod cyfreithiol naill ai drwy atwrneiaeth arhosol neu drwy wneud cais i'r Llys Gwarchod. Y Llys Gwarchod yw'r llys arbenigol sy'n delio â phopeth yn ymwneud â diffyg galluedd meddyliol yng Nghymru a Lloegr. Er mwyn gwneud cais i'r Llys Gwarchod am orchymyn eiddo a materion ariannol, rhaid llenwi a chyflwyno ffurflen gais, ffurflen wybodaeth ategol, ffurflen asesu galluedd gan ymarferydd, a datganiad dirprwy. Ffi'r llys am wneud cais ar hyn o bryd yw £371 ond mae'n bosibl gwneud cais i leihau neu hepgor talu'r ffi gan ddibynnu ar eich amgylchiadau ariannol. Er y gellir cwblhau'r broses heb gymorth cyfreithiwr, mae rhai ymgeiswyr yn dewis defnyddio un, gan ychwanegu at gost y broses.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid cyn ymgynghori

33. Roedd sylwadau i'r llywodraeth gan rieni oedd am gael mynediad at gyfrifon Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant a oedd wedi aeddfedu yn enw oedolion ifanc wedi dod â'r mater o gael mynediad at asedau gwerth isel ar ran pobl heb alluedd meddyliol i'r amlwg. Cyfrifon cynilo di-dreth hirdymor i blant yw'r cyfrifon hyn, wedi eu sefydlu gan y llywodraeth yn 2002 ac roeddent ar gael tan 2011. Cawsant eu dylunio i helpu i sicrhau bod plant yn troi'n oedolion gyda chyfrif cynilo, eu bod yn cael eu hannog i gynilo ac yn deall pam ei bod yn bwysig cynilo. Aeddfedodd y Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant cyntaf ym mis Medi 2020, pan gyrhaeddodd y deiliaid cyfrifon hynaf eu deunaw oed. Pan aeddfedodd y cyfrifon cyntaf hyn cafodd rieni a gofalgwyr

oedolion ifanc, oedd heb alluedd meddyliol i reoli eu cyfrifon eu hunain, eu cynghori gan ddarparwyr ariannol y cronfeydd fod angen cael awdurdod cyfreithiol gan y Llys Gwarchod i gael mynediad atynt. Am y rhesymau a ddisgrifir uchod, teimlai rhai rhieni a gofalwyr fod hyn yn broses annheg, gostus a oedd yn drwm ar eu hamser er mwyn gallu cael mynediad at asedau eu plant ar eu rhan.

34. Dadleuai ymgyrchwyr y Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant y dylai fod ffordd haws o gael mynediad at y cyfrifon hyn ac na ddylai fod angen gorfod gwneud cais i'r Llys Gwarchod ar ran oedolyn ifanc oedd ond gyda chyfrif cynilo eithaf bach.
35. Ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys darparwyr gwasanaethau ariannol a grwpiau anabledd, cadarnhawyd ei bod yn broblem ehangach. O ganlyniad, daeth y llywodraeth yn ymwybodol nad yw'r prosesau presennol yn cael eu deall yn dda a'u bod yn cael eu hystyried i fod yn rhy hir i deuluoedd a gofalwyr sy'n ceisio cael mynediad at symiau bach ar ran rhywun heb alluedd meddyliol. Y nod oedd casglu tystiolaeth gadarn, drwy ymgynghori, er mwyn deall maint a natur y trafferthion a'r rhwystrau y gall unigolion eu hwynebu wrth ddefnyddio'r prosesau gofynnol.

Ymgynghoriad

36. Bu'r llywodraeth yn ystyried a allai proses arall yn lle'r Llys Gwarchod ar gyfer awdurdodi mynediad at daliadau bach fod yn briodol mewn rhai amgylchiadau, Roedd hyn oherwydd y nifer bosibl o bobl nad yw eu teuluoedd, ffrindiau a'u gofalwyr efallai'n gwneud cais i'r Llys Gwarchod oherwydd eu bod yn teimlo bod y broses yn rhy gymhleth neu anghymesur i'r symiau dan sylw neu nad oeddent yn gwybod bod angen gwneud cais yn y lle cyntaf.
37. Nod yr ymgynghoriad oedd casglu adborth penodol ar elfennau o'r broses arfaethedig a barn ehangach am bethau fel rhwystrau presennol y system, i gynorthwyo camau pellach i ddatblygu cynllun taliadau bach, lle bo'n briodol, ar gyfer pobl heb alluedd meddyliol.
38. Roedd ein cynigion ar gyfer y cynllun yn seiliedig ar dair thema:
 - **cwmpas** – rhaid i unrhyw gynllun fod yn ddigon eang ei gwmpas i fod yn ddefnyddiol i ymgeiswyr ond gan osgoi gwahaniaethu anfwriadol, neu ddisodli proses y Llys Gwarchod
 - **diogelwch** – rhaid i'r cynllun fod yn ddigon diogel fel nad yw'n creu risg ddiangen i asedau'r unigolion heb alluedd meddyliol, neu risg i ddiogelwch y cyfrifon
 - **trefn syml** – rhaid i gynllun arfaethedig fod yn symlach, yn gynt a haws ei ddefnyddio na'r drefn bresennol, ond nid yn rhy gostus na'n anodd i gwmnïau gwasanaethau ariannol ei weithredu, gan sicrhau cysondeb ar draws y diwydiant

39. Defnyddiwyd yr egwyddorion canlynol i asesu addasrwydd unrhyw broses newydd:
- A yw'n cynnal egwyddorion y Ddeddf o roi hawliau'r person agored i niwed yn gyntaf?
 - A fydd yn cyfrannu at roi mynediad symlach at arian?
 - A yw'n lliniaru unrhyw risg bosibl i asedau pobl ac i gwmnïau gwasanaethau ariannol?
 - A yw'n adlewyrchu'r egwyddor y dylai'r cynllun fod yn drefn symlach na gorchymyn eiddo a materion ariannol untro, yn hytrach na'n disodli'r trefniant dirprwy?
 - A ellir ei defnyddio heb gael effaith anghymesur ar grwpiau penodol? Er enghraifft, a yw'n osgoi goblygiadau negyddol i gydraddoldeb?
 - A yw'n ymarferol i'w darparu?
40. Edrychodd yr ymgynghoriad hefyd ar ba rwystrau a wynebir gan unigolion wrth geisio cael gorchymyn dirprwy gan y Llys Gwarchod ar gyfer eiddo a materion ariannol, er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau'n well a'u cywiro.

Ymatebion i gwestiynau penodol

Trosolwg

41. Wrth ystyried elfennau o'r cynllun, edrychwyd ar y drefn bresennol o roi mynediad at arian. Roedd hyn yn cynnwys y broses o gael atwrneiaeth arhosol, neu'r gofynion ar gyfer gwneud cais i'r Llys Gwarchod am orchymyn dirprwy neu 'untro'.
42. Fe wnaethom hefyd adolygu cynigion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith yn 1992 a 1995.² Roedd y cynigion hyn ar gyfer cynllun a oedd yn galluogi cwmnïau fel banciau, cymdeithasau adeiladu a chwmnïau yswiriant, yn ôl eu disgrisiwn eu hunain, i adael i unigolyn enwebedig dynnu arian allan neu dderbyn tâl allan o gyfrif neu o dan bolisi yswiriant yn enw'r person heb alluedd meddyliol. O dan y cynllun hwnnw, roedd angen i'r sefydliad a fyddai'n talu allan lunio cytundeb â'r person a fyddai'n derbyn yr arian.
43. Fe wnaethom ymgysylltu â'r sector ariannol i ddeall y prosesau sydd eisoes yn eu lle i ryddhau arian i unigolion, a gyda sefydliadau sy'n cynrychioli pobl anabl, i ddeall anghenion yr unigolion hyn.

Cwestiwn 1: Yn eich barn chi, a oes angen cynllun taliadau bach?³

Oes	Nac oes	Ddim yn gwybod	Cyfanswm yr ymatebion
188 (87%)	17 (8%)	12 (6%)	217

44. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (87% o 217) fod angen cynllun taliadau bach. Er hyn, roedd yr ymatebion i gwestiynau eraill yr ymgynghoriad yn nodi'n glir fod diffyg consensws ynghylch union natur y cynllun, yn enwedig y rhagofalon oedd angen bod yn eu lle ac a fyddai'r pethau hyn yn gwneud unrhyw gynllun arfaethedig yn symlach na'r drefn bresennol. Felly, er bod y mwyafrif yn cytuno bod angen cynllun taliadau bach, nid oeddent o reidrwydd o blaid y cynllun a ddisgrifiwyd yn yr ymgynghoriad, gyda llawer o'r ymatebwyr yn cynnig eu hawgrymiadau eu hunain o ran ba elfennau i'w hychwanegu neu dynnu allan (trafodwn y rhain mewn cwestiynau i ddod). Roedd llawer o'r ymatebwyr hefyd o blaid y dulliau gwarchod ym mhroses y Llys Gwarchod ond yn teimlo'n rhwystredig gyda'r hyn a ystyriwyd i fod yn rhwystrau

² Adroddiadau Comisiwn y Gyfraith: 'Mentally incapacitated adults and decision making' (1992) a 'Mental incapacity' (1995)

³ Mae'r canrannau ymateb yn adio i fwy na 100% oherwydd talgrynnu.

yn y system, yn hytrach na gwrthwynebu i'r egwyddor bod angen gofyn am awdurdod cyfreithiol.

45. Rhoddodd 161 o'r ymatebwyr resymau am eu hateb. Soniodd o leiaf chwarter yr ymatebwyr am gael mynediad at gyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Plant (o leiaf 43 allan o 161 ymateb). Roeddent yn teimlo bod angen cael ffordd haws o gael gafael ar arian yn y cyfrifon hyn ac yn poeni na fyddai eu plentyn yn elwa o'r arian heb fynd drwy broses hirfaith. Teimlai eraill na ddylai rhieni sydd wedi darparu gofal i'w plant orfod cael awdurdod cyfreithiol i gael mynediad at y cyfrifon hyn ar ôl i'w plant droi'n 18 oed. Roedd hyn yn arbennig o wir os oeddent wedi eu penodi ac yn gyfrifol am fudd-daliadau ar ran eu plentyn.
46. Mae'n werth cofio y gellir ond cael mynediad at arian mewn Cronfa Ymddiriedolaeth Plant ar ôl i blentyn droi'n 18 oed ac yn oedolyn yn gyfreithiol. Ar y pwynt hwn daw cyfrifoldeb y rhieni i ben ac mae gan yr oedolyn ifanc yr un hawliau eiddo â phob oedolyn arall. O dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol, mae angen i rieni neu unrhyw un arall sydd eisiau gwneud penderfyniadau ar ran person ifanc wneud cais am awdurdod cyfreithiol i gael mynediad at gyfrif os nad oes gan ddeiliad y cyfrif alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau penodol yng nghyswllt ei gyfrif.
47. Y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd o blaid cael cynllun taliadau bach oedd proses y Llys Gwarchod. Teimlai llawer fod y broses o wneud cais am drefniant dirprwy i'r Llys Gwarchod yn gostus, yn cymryd amser ac yn straen gan ystyried bod y broses yn anghymesur ar gyfer symiau gwerth isel.
48. Mae'n werth nodi bod unrhyw un sydd angen awdurdod cyfreithiol ar gyfer symiau bach yn debygol o fod ei angen i wneud penderfyniadau eraill sy'n effeithio ar berson heb alluedd. Mae'r rhain yn cynnwys talu biliau, cyflogi gweithwyr cefnogi neu lofnodi cytundebau tenantiaeth ar gyfer llety cymorth, a fyddai'n golygu bod angen cais am orchymyn dirprwy.
49. Teimlai ymatebwyr eraill y byddai proses haws o gael mynediad at daliadau bach yn lleihau'r straen a'r baich ariannol ar deuluoedd ac yn talu am anghenion taer oedd angen sylw brys. Awgrymodd eraill y dylid defnyddio cynllun o'r fath i ddarparu cymorth ariannol dros dro cyn cael awdurdod cyfreithiol mwy hirdymor. Ar y cyfan, teimlai llawer y byddai cynllun taliadau bach yn cynnig proses gyson a chymharol rad i gael mynediad at gynilion bach.
50. Byddai'n ddefnyddiol ateb rhai o'r pryderon hyn yma. Mae'r Llys Gwarchod yn cynnig gwasanaeth cais brys os oes angen penderfyniad ar unwaith. Yn yr achosion hyn, gellir gwneud penderfyniadau o fewn 24 awr ac allan o oriau lle bo angen. O ran cost proses y Llys Gwarchod, mae nifer o sefyllfaoedd lle y gallai ymgeiswyr fod yn gymwys am ffi wedi'i hepgor neu eithrio. Gallai hepgor talu ffi fod yn berthnasol yn achos Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant, pan wneir y cais pan fydd deiliad y cyfrif yn

dal yn blentyn (ac mewn rhai amgylchiadau pan fydd yn 18 oed) a'r gronfa yw'r unig ased y rhoddir mynediad ati.

51. Mewn ymatebion eraill, soniodd y rhai a oedd yn erbyn cynllun taliadau bach at y risg o'i gamddefnyddio. Dywedent fod yr opsiynau presennol o gael mynediad at arian yn fwy priodol oherwydd y rhagofalon o dan y Ddeddf, gan gynnwys goruchwyllo dirprwyon gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, a'r gofyniad i'r dirprwy gyflwyno adroddiad blynyddol. Yn ogystal â rhoi cyfrif o'r trafodion ariannol a ddigwyddodd, gofynnir i ddirprwyon roi gwerth presennol yr asedau, lefel y cyswllt sydd ganddynt â'r person heb alluedd a'r arian a wariwyd arno, sut y mae unrhyw ofal yn cael ei ariannu ac ydy'r person yn derbyn yr holl fudd-daliadau y mae ganddo hawl iddynt. Mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus wedi nodi, os nad yw dirprwy yn cwrdd â'r gofynion hyn, y gall fod yn arwydd cynnar bod y person heb alluedd yn cael ei gam-drin, neu'n rhybudd nad yw'n derbyn digon o gymorth.
52. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid gwella proses y Llys Gwarchod yn lle creu proses arall a allai ddyblygu'r rhwystrau yn y system bresennol.

Cwestiwn 2: Pa effaith ydych chi'n meddwl fyddai'r cynllun arfaethedig yn ei chael ar rai heb alluedd meddyliol?⁴

Cadarnhaol	Cadarnhaol gan mwyaf	Niwtral	Negyddol gan mwyaf	Negyddol	Ddim yn gwybod	Cyfanswm yr ymatebion
114 (55%)	66 (32%)	18 (9%)	2 (1%)	6 (3%)	3 (1%)	209

53. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (87%) y byddai'r cynllun yn cael effaith 'gadarnhaol neu 'gadarnhaol gan mwyaf' ar rai heb alluedd meddyliol.
54. Y sylw mwyaf cyffredin oedd y byddai mynediad cynt a haws at arian yn gwella ansawdd bywyd a lles yr unigolyn. Dywedodd eraill oherwydd mai'r unigolyn sydd piau'r arian, y dylai fod yn gallu elwa o'i arian ei hun yn ddirwysr.
55. Er yn cytuno y byddai'r cynllun yn cael effaith gadarnhaol, roedd rhai'n cydnabod y risg o dwyll a chamddefnyddio'r cynllun a bod rhagofalon yn hanfodol i weld manteision llawn y cynllun. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau uchafswm o ran faint o arian y gellid ei ryddhau drwy'r cynllun.
56. Teimlai eraill nad oedd y cynllun dan sylw'n ddigon syml neu'n parhau i fod â gormod o gyfyngiadau ac felly na fyddai'n llawer o werth i unigolion.

⁴ Mae'r canrannau ymateb yn adio i fwy na 100% oherwydd talgrynnu.

Cwestiwn 3: Yn eich barn chi, pa effaith a fyddai'r cynllun arfaethedig yn ei chael ar ofalwyr am rai heb alluedd meddyliol?

Cadarnhaol	Cadarnhaol gan mwyaf	Niwtral	Negyddol gan mwyaf	Negyddol	Ddim yn gwybod	Cyfanswm yr ymatebion
142 (68%)	43 (21%)	7 (3%)	5 (2%)	8 (4%)	4 (2%)	209

57. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (89% o 209 ymateb) y byddai'r cynllun yn cael effaith 'gadarnhaol' neu 'gadarnhaol gan mwyaf' ar ofalwyr am rai heb alluedd meddyliol.
58. Awgrymodd dros 50% o'r rhai a roddodd reswm dros eu hateb (78 allan o 146 ymateb) y byddai cynllun taliadau bach yn ysgafnu'r baich ar rieni a gofalwyr. Soniodd rhai'n glir am yr heriau a'r rhwystrau a wynebier gan rieni a gofalwyr sy'n gofalu am bobl heb alluedd meddyliol gan deimlo y byddai cynllun symlach yn helpu i ryddhau amser ac adnoddau.
59. Roedd rhesymau cadarnhaol cyffredin eraill yn ymwneud â hwyluso mynediad haws, cynt a rhatach er mwyn gallu defnyddio'r arian er lles gorau'r unigolyn heb alluedd meddyliol. Roedd yr enghreifftiau'n cynnwys gofalu am gostau dydd i ddydd, talu am addasiadau i'r cartref, a phrynu eitemau personol.
60. Awgrymodd rhai y gallai gofalwyr hefyd sicrhau bod yr arian yn cael ei wario'n gyfrifol. Ar y pwynt hwn, mae'n werth cofio mai un o egwyddorion y Ddeddf yw cynnal hawl unigolion sydd â galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau annoeth. Nid yw penderfyniad gwario annoeth yn arwydd o ddiffyg galluedd a dylid cefnogi unigolion, lle bynnag bosibl, i wneud eu penderfyniadau eu hunain hyd yn oed os yw rhiant neu ofalwr yn anghytuno ar sut y gwariwyd yr arian.
61. Adleisiwyd y pryderon am ragofalon a godwyd yng nghwestiwn 2 mewn rhai ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda rhai'n awgrymu risg bosibl o gamddefnyddio oherwydd nad y rhiant neu ofalwr oedd piau'r arian.

Cwestiwn 4: Pa gategoriâu y byddai'r cynllun fwyaf tebygol o gael ei ddefnyddio i dalu amdanynt?

62. Gallai'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn ddewis nifer o gategoriâu a hefyd gallu rhoi ymateb 'testun rhydd' i ategu eu hateb.

Categori	Nifer yr ymatebion
Dillad ac esgidiau	110
Tai, cynnal a chadw a dodrefn	106
Hamdden ac adloniant	105
Iechyd	85
Teithio	80
Bwyd a diod	69
Offer trydanol pob dydd	59
Arall	43
Ddim yn gwybod	20
Ni fyddwn yn defnyddio'r cynllun	7

63. Y categorïau mwyaf cyffredin a ddewiswyd gan ymatebwyr oedd 'dillad ac esgidiau' (110 o ymatebwyr), 'tai, cynnal a chadw a dodrefn' (106 o ymatebwyr) a 'hamdden ac adloniant' (105 o ymatebwyr).
64. Awgrymodd y rhai oedd wedi ehangu ar eu hymateb, neu wedi dewis 'arall', y gellid defnyddio'r arian i dalu am addasiadau i'r car neu'r cartref, i brynu cymhorthion symudedd neu offer arbenigol arall. Awgrymodd eraill y gellid defnyddio'r arian at ddibenion addysgol fel i dalu am diwtoriaid.
65. Dywedodd llawer o'r rhai a roddodd reswm dros eu hymateb na ddylai fod cyfyngiadau ar beth y gellir gwario'r arian arno ac y dylai rhieni a gofalwyr fod yn gallu prynu unrhyw beth sydd er lles gorau deiliad y cyfrif. Ar y llaw arall, awgrymodd rhai y dylai fod cyfyngiadau yn eu lle ac, er enghraifft, na ddylid gwario'r arian ar offer electronig neu deithio.

Pobl y byddai'r cynllun yn berthnasol iddynt

Cwestiwn 5: A ddylai'r cynllun fod yn berthnasol i unigolion gyda diffyg galluedd amrywiol neu dros dro?

Dylai	Na ddylai	Ddim yn gwybod	Cyfanswm yr ymatebion
114 (54%)	47 (22%)	50 (24%)	211

66. Teimlai 54% o'r 211 o ymatebion y dylai'r cynllun fod yn berthnasol i unigolion gyda diffyg galluedd amrywiol neu dros dro (os oes gan berson alluedd weithiau i wneud ei benderfyniadau ei hun, ond nid dro arall). Ni roddodd y rhan fwyaf reswm dros yr ymateb hwn ond, o'r rhai a roddodd reswm, clywsom fod costau'n aml yn parhau os collir galluedd dros dro, felly y byddai'r cynllun yn beth da.
67. Roedd 46% yn erbyn y cynnig hwn neu'n ansicr. Teimlai rhai mai'r Llys Gwarchod oedd yn y sefyllfa orau i fod yn gyfrifol am geisiadau'n ymwneud ag unigolion gyda galluedd amrywiol neu dros dro. Roedd rhai sefydliadau ariannol yn poeni'n arbennig am ddyfarnu ar achosion yn yr amgylchiadau hyn o gofio bod gan y Llys Gwarchod arbenigedd i wneud hyn yn barod. Roedd eraill yn poeni am anghydfod posibl am sut i wario'r arian pe bai'r unigolyn yn adennill galluedd.

Cwestiwn 6: Os dylai, a ddylid cael cyfnod lleiaf o amser y byddai galluedd yn cael ei golli drosto? Os na ddylai, pam?

Dylid	Na ddylid	Ddim yn gwybod	Cyfanswm yr ymatebion
27 (47%)	27 (47%)	4 (7%)	58

68. Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi'i rannu'n gyfartal rhwng rhai a atebodd 'dylid' ac 'na ddylid' (27 allan o 58 ymateb yr un).
69. Roedd y rhai a oedd yn erbyn cael cyfnod lleiaf o amser unwaith eto'n pwysleisio y gall colli galluedd dros dro gael effaith barhaus ar sefyllfa ariannol. Roeddent felly'n teimlo y gallai'r cynllun gynorthwyo ym mhob sefyllfa lle nad oedd gan y person alluedd, hyd yn oed lle'r oedd dros dro. Teimlai rhai y dylai'r cynllun taliadau bach hefyd gynnwys sefyllfaoedd argyfwng lle'r oedd angen rhyddhau arian yn syth (o fewn 24 awr).
70. Roedd rhai wedi dewis 'na ddylid' ond yna wedi egluro bod amgylchiadau'n amrywio a'i bod yn anodd gwybod beth a fyddai'n 'gyfnod lleiaf o amser' priodol. Felly, roeddent o blaid rhai cyfyngiadau. Awgrymodd eraill y dylid defnyddio'r dystiolaeth feddygol i benderfynu ar gyfnod lleiaf o amser, fesul achos.
71. Roedd y rhai o blaid cael cyfnod lleiaf o amser yn adleisio rhai o'r pwyntiau a wneir uchod drwy ddweud, er eu bod o blaid cael cyfnod lleiaf o amser, y dylid penderfynu hyn fesul achos. Roedd eraill yn poeni am y risg o gamddefnyddio'r cynllun ac y byddai cyfnod lleiaf o amser yn lleihau'r risg pan fyddai unigolyn efallai'n colli galluedd dros dro ar gyfnodau.

72. Roedd awgrymiadau ar gyfer fframiau amser ar gyfer cyfnod lleiaf o amser yn amrywio o wythnosau i hyd at flwyddyn. Yr awgrymiadau mwyaf cyffredin oedd tri mis, chwe mis a deuddeg mis.

Gwerth y taliadau

Cwestiwn 7: Yn eich barn chi, ydy £2,500 yn uchafswm priodol o ran faint o arian y gellid cael mynediad ato drwy gynllun taliadau bach?

73. Gallai'r ymatebwyr ddewis 'ydy', 'nac ydy' a 'ddim yn gwybod'. Lle'r oedd yn bosibl, os rhoddwyd ymateb 'testun rhydd' i egluro ateb 'nac ydy', defnyddiwyd hyn i fesur y gefnogaeth dros uchafswm uwch neu is. Lle y cafwyd ateb 'nac ydy' heb destun rhydd ychwanegol a dim awgrym clir y naill ffordd na'r llall, nodwyd hyn fel 'nac ydy – heb ddweud faint'.

Ydy	Nac ydy – dylai fod yn is	Nac ydy – dylai fod yn uwch	Nac ydy – heb ddweud faint	Ddim yn gwybod	Cyfanswm yr ymatebion
68 (31%)	15 (7%)	105 (48%)	5 (2%)	26 (12%)	219

74. Roedd yr ymatebion yn gymysg. Ychydig dros hanner yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (48% o 2019) a deimlai y dylai'r uchafswm tynnu allan fod yn uwch. Teimlai 38% y dylai'r uchafswm aros yn £2,500 neu'n is.
75. Rhoddodd 132 o'r ymatebwyr resymau am eu hateb. O'r rhain, dywedodd 37% (49 o 132) y dylid codi'r uchafswm i £5,000. Ystyriwyd bod hyn yn swm mwy priodol i dalu am y rhan fwyaf o anghenion gyda rhai'n sôn am chwyddiant a chostau byw uwch yn eu hatebion. Dywedodd lawer fod costau gofal, biliau a threuliau'n gysylltiedig ag offer arbenigol ac addasiadau'n aml yn fwy na £2,500. Roeddent felly'n teimlo na fyddai mantais lawn y cynllun yn cael ei phrofi heb godi'r cyfanswm o arian y gellid ei dynnu allan.
76. Dywedodd rhai bod hefyd angen uchafswm uwch i ddarparu cymorth ariannol digonol yn y cyfamser tra bo'r Llys Gwarchod yn ystyried eu cais. Ni ystyriwyd fod £2,500 yn ddigon am gyfnod o 6 i 12 mis, yn enwedig i rai oedd hefyd yn gorfod talu ffioedd cais y Llys Gwarchod. Dywedodd eraill fod banciau'n rhyddhau mwy na £2,500 drwy eu prosesau anffurfiol ac y byddai uchafswm o £2,500 yn cymell pobl i beidio â defnyddio'r cynllun.
77. Roedd rhai ymatebwyr yn poeni'n benodol am gael mynediad at Gronfeydd Ymddiriedolaeth Plant gan awgrymu na ddylai fod unrhyw uchafswm ar y rhain; gan gydnabod y byddai llawer o rieni wedi talu symiau mawr i mewn iddynt dros y

blynyddoedd. Nid oedd ymatebwyr yn meddwl ei bod yn deg cosbi'r teuluoedd a oedd wedi buddsoddi arian drwy wahardd mynediad at y cynllun taliadau bach. Cyfeiriodd rhai sefydliadau ariannol at y ffaith fod y ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant yn atal rhandaliadau allan o gronfeydd o'r fath, ac yn poeni y byddai llawer o gronfeydd felly'n cael eu heithrio o'r cynllun. Awgrymodd rhai y dylid felly cael uchafswm tynnu allan yn benodol ar gyfer y cyfrifon hyn.

78. Roedd llawer yn teimlo nad oedd £2,500 yn 'swm bach o arian' (y swm cyfartalog mewn cyfrif cynilion yn y DU yw £12,500 ond mae gan 25% o aelwydydd lai na £2,100 wedi'i gynilo).⁵ Roeddent yn dadlau y dylai'r swm aros yr un fath neu fod yn is, gydag awgrymiadau'n amrywio o £500 i £1,500. Roedd y rhai a oedd o blaid cadw'r uchafswm yn £2,500 yn credu mai dyma'r swm a oedd fwyaf cydnaws â'r rhagofalon presennol a'i fod yn caniatáu prynu ystyrion. Yn eu barn hwy, byddai rhyddhau symiau uwch yn cynyddu'r risg o gamddefnyddio'r cynllun a byddai angen cynyddu lefel y warchodaeth. Teimlai eraill fod £2,500 yn swm addas oherwydd y byddai'n cynnwys y rhan fwyaf o arian mewn Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant. Roedd ymatebwyr oedd o blaid uchafswm is yn poeni am y risg o gamddefnyddio gan deimlo nad oedd £2,500 yn swm digon isel.
79. Awgrymodd eraill y dylid addasu'r uchafswm ar sail amgylchiadau ariannol a lefelau gwariant unigol. Awgryment y gallai'r banciau benderfynu ar uchafswm gan ddibynnu ar gyfanswm gwerth yr asedau oedd gan unigolyn, ac y dylai unigolion gyda gwerth net uwch fod yn gallu cael mynediad at fwy o arian drwy'r cynllun.

Parhad y taliadau

Cwestiwn 8: Ydy chwe mis yn ddigon o amser i gael mynediad at y cynllun taliadau bach?⁶

Ydy	Nac ydy	Ddim yn gwybod	Cyfanswm yr ymatebion
77 (37%)	90 (43%)	40 (19%)	207

80. Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gymysg gyda 43% (90 allan o 207) yn erbyn cael uchafswm amser o chwe mis. Awgrymodd llawer y dylid codi'r uchafswm amser i 12 mis fel bod gan deuluoedd ddigon o amser i ofalu am eu materion ariannol a chael awdurdod cyfreithiol yn y cyfamser. Dywedodd rhai bod teuluoedd sy'n jyglo

⁵ <https://www.nimblefins.co.uk/savings-accounts/average-household-savings-uk#:~:text=The%20median%20household%20gross%20savings,unpaid%20balances%20on%20credit%20cards>

⁶ Mae'r canrannau ymateb yn adio i lai na 100% oherwydd talgrynnu.

cyfrifoldebau gofalu'n aml yn wynebu nifer o benderfyniadau anodd ac y byddai cynyddu'r uchafswm amser yn lleihau'r pwysau arnynt.

81. Awgrymodd llawer fod uchafswm amser yn ddiangen ac y gallai arwain at wario arian yn annoeth wrth i unigolion geisio tynnu symiau mawr o arian allan yn sydyn cyn colli mynediad. Dywedodd eraill fod weithiau angen tynnu arian allan yn gyfnodol dros gyfnod hirach o amser, er enghraifft i dalu am wyliau mewn rhan-daliadau. Ystyriwyd bod uchafswm o chwe mis felly'n anymarferol.
82. O ran Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant, dywedodd rhai bod uchafswm amser yn ddiangen oherwydd y byddai cyfrif o'r fath yn cael ei gau unwaith i'r swm llawn gael ei dynnu allan. Dadleuai eraill oherwydd bod colli galluedd yn hirdymor, ac y byddai costau'n parhau ar ôl chwe mis, y dylai'r mynediad fod yn barhaus, gyda dyddiadau adolygu pe bai angen.
83. Ar y llaw arall, awgrymodd rhai y dylai'r uchafswm amser fod rhwng tri a chwe mis. Awgryment y byddai llai o amser yn lleihau'r risg o gam-drin ariannol. Fodd bynnag, gallai hyn fod yn gamddealltwriaeth o sut y byddai'r cynllun yn gweithio oherwydd ni fyddai cyfnod llai o amser yn lleihau'r uchafswm tynnu allan.

Cwestiwn 9: A ddylai'r cynllun ganiatáu cael ei adnewyddu unwaith (heb estyniad i'r uchafswm gwreiddiol o £2,500)?

Dylai	Na ddylai	Ddim yn gwybod	Cyfanswm yr ymatebion
76 (37%)	55 (27%)	73 (36%)	204

84. Roedd yr ymateb i'r cwestiwn hwn yn gymysg gyda 37% o'r ymatebwyr (76 allan o 204 o ymateb) o blaid estyniad a 36% (73 allan o 204 ymateb) yn ansicr.
85. Teimlai llawer o'r rhai a oedd yn ansicr y dylai'r cynllun fod yn hyblyg ac nid oeddent o blaid cyfyngu mynediad i adnewyddu unwaith. Teimlai'r rhai a oedd o blaid adnewyddu unwaith y byddai estyniadau'n rhoi mynediad parhaus dros y cyfnod y mae cais i'r Llys Gwarchod yn cael ei brosesu, o gofio y gall rhai ceisiadau gymryd mwy na chwe mis os oes cymhlethdodau neu wybodaeth ar goll. Dywedodd rhai a oedd o blaid adnewyddu unwaith y gallai amgylchiadau unigol olygu bod estyniad yn briodol. Er enghraifft, gallai fod angen mynediad am hirach i rieni a gofalmwyr sy'n jyglo cyfrifoldebau gofalu ar yr un pryd ag ymdopi â thasgau gweinyddol.
86. Roedd rhesymau'r rhai a ddywedodd 'na ddylai' hefyd yn gymysg. Awgrymodd rhai na ddylid caniatáu estyniad oherwydd y byddai'n gwneud y cynllun yn rhy gymhleth i'w weinyddu. Roedd rhai a oedd yn erbyn adnewyddu 'unwaith' o blaid rhoi mynediad parhaus ac yn teimlo felly nad oedd angen estyniad.

Cynhyrchion o fewn cwmpas y cynllun

Cwestiwn 10: Ydych chi'n cytuno â'r rhestr arfaethedig o gynhyrchion ariannol a fyddai o fewn cwmpas y cynllun?

Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Cyfanswm yr ymatebion
115 (57%)	27 (13%)	60 (30%)	202

87. Roedd 57% o'r 202 o ymatebion yn cytuno â'r rhestr arfaethedig o gynhyrchion ariannol a fyddai o fewn cwmpas y cynllun taliadau bach. Ni roddodd y rhan fwyaf reswm dros eu hymateb ond dywedodd y rhai a roddodd reswm fod y rhestr yn ddigon eang ac yn cynnwys y rhan fwyaf o asedau gwerth isel cyffredin.
88. Cytunodd eraill â'r rhestr gynhyrchion ond gan awgrymu y dylid adolygu'r rhestr o bryd i'w gilydd ac y gallai hefyd gael ei monitro gan gorff y llywodraeth neu'r Llys Gwarchod.
89. Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r rhestr fod y rhestr yn rhy gyfyngus ac annheg. Gan gyfeirio'n benodol at Gronfeydd Ymddiriedolaeth Plant, roeddent yn dadlau nad oedd unigolion gyda galluedd wedi eu cyfyngu o ran cyfrifon y gallent gael mynediad atynt. Roedd rhai hefyd yn teimlo bod cyfyngu'r cynhyrchion y gellid cael mynediad atynt yn gwahaniaethu.
90. Lleisiodd cwmnïau gwasanaethau ariannol bryderon am ymarferoldeb cynnwys neu eithrio rhai o'r cynhyrchion ar y rhestr. Lleiswyd pryderon y gallai rheoliadau sy'n berthnasol i'r cynhyrchion hyn, neu faterion gweithredol eraill, gymhlethu mynediad at y cynllun.
91. Awgrymodd nifer fach o ymatebwyr a anghytunai â'r rhestr gynhyrchion fod y rhestr yn rhy eang ac y dylid ei chyfyngu i gynhyrchion pob dydd.
92. Roedd y rhan fwyaf a oedd yn ansicr eisiau mwy o wybodaeth am sut y byddai'r rhestr yn cael ei rheoli. Yn benodol, roedd arnynt eisiau mwy o wybodaeth am logisteg cael mynediad at gynhyrchion fel cyfrifon buddsoddi a chyfrifon gyda chosbau ynghlwm. Roedd eraill eisiau gwybod mwy am sut y byddai banciau'n cyfyngu mynediad at gynhyrchion y tu allan i gwmpas.

Cwestiwn 11: Pa gynhyrchion, os o gwbl, y teimlwch y dylid eu hychwanegu at, neu dynnu oddi ar y rhestr?

93. Roedd 38 ymatebwr wedi rhoi ymateb testun rhydd i'r cwestiwn hwn. Roedd yr ymatebion mwyaf cyffredin yn ymwneud â ffioedd trydydd parti a chyfrifon cynilo.

94. O ran ffioedd trydydd parti, costau gofal a godwyd amlaf, gydag ymatebwyr yn nodi y gellid defnyddio'r cynllun i dalu'n rhannol neu dros dro am ffioedd gofal. Roedd gan rai ddiddordeb mewn cynnwys ffioedd trydydd parti i dalu am filiau a chostau.
95. O ran cyfrifon cynilo, awgrymwyd y dylid ychwanegu cyfrifon di-dreth fel Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant a chyfrifon ISA i Blant.

Cwestiwn 12. A ddylai cwmnïau gwasanaethau ariannol fod yn gyfrifol am weinyddu cynllun taliadau bach?

Dylai	Na ddylai	Ddim yn gwybod	Cyfanswm yr ymatebion
92 (44%)	64 (31%)	51 (25%)	207

96. Derbyniodd y cwestiwn hwn ymateb cymysg gyda 44% o blaid gweld cwmnïau gwasanaethau ariannol yn gweinyddu'r cynllun taliadau bach. Roedd llawer o'r ymatebion testun rhydd yn canolbwyntio ar allu'r banciau i weinyddu'r cynllun.
97. Awgrymodd y rhai a oedd o blaid gweld y cwmnïau gwasanaethau ariannol yn rhedeg y cynllun ddwy fantais: gall banciau sicrhau'r arian rhag twyll, a banciau sy'n deall anghenion eu cwsmeriaid orau.
98. Eglurodd ymatebwyr y byddai cwmnïau gwasanaethau ariannol yn gallu sicrhau'r arian rhag twyll drwy ddefnyddio mesurau rheoli sydd eisoes yn eu lle, fel canllawiau'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Dywedodd ymatebwyr eraill y gallai cwmnïau gwasanaethau ariannol roi sicrwydd pellach drwy fod ganddynt drosolwg ar y cynllun, er mwyn gallu fetio ymgeiswyr a monitro arian a dynnir allan.
99. Ar ddeall anghenion y cwsmer, awgrymodd rhai ymatebwyr mai'r banciau oedd yn y sefyllfa orau i redeg y cynllun oherwydd mai nhw oedd yn deall amgylchiadau eu cwsmeriaid orau a gyda darlun llawn o sefyllfa ariannol deiliaid cyfrifon, a oedd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch pob achos unigol. Tynnodd rhai hefyd sylw bod llawer o fanciau eisoes yn defnyddio asesiadau risg a phrosesau eithrio i ryddhau arian o gyfrifon fel Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant wedi aeddfedu.
100. Awgrymodd rhai ymatebwyr, pe bai cwmnïau gwasanaethau ariannol yn gweinyddu'r cynllun, y bydd angen rhyw fath o drosolwg gan lywodraeth neu awdurdod lleol i sicrhau bod y cynllun yn gyson ac unol â'r Ddeddf.
101. Ar y llaw arall, roedd ymatebwyr nad oeddent o blaid gweld banciau'n rhedeg y cynllun (31% o 207 o ymatebion) yn poeni am ddealltwriaeth y cwmnïau gwasanaethau ariannol o'r Ddeddf. Tynnodd ymatebwyr sylw nad oes gan gwmnïau

gwasanaethau ariannol efallai'r adnoddau na'r hyfforddiant priodol i asesu galluedd meddyliol neu ddyfarnu ar geisiadau, gan awgrymu y dylai'r cyfrifoldeb hwn aros gyda'r Llys Gwarchod. Roeddent yn cyfeirio at y problemau presennol gyda defnyddio atwrneiaeth arhosol a gorchmynion dirprwy mewn banciau ac yn poeni y byddai problemau tebyg yn codi pe bai'r cwmnïau hyn yn rhedeg y cynllun. Awgrymodd rhai, er mwyn lliniaru yn erbyn y risg hon, y dylai staff rheng flaen dderbyn hyfforddiant a chael cynnig canllawiau cynhwysfawr i wella eu sgiliau o ran y Ddeddf.

102. Hefyd, roedd ymatebwyr eraill wedi lleisio pryderon am y costau i gwmnïau o weinyddu'r cynllun gan awgrymu y byddai'r gost yn cael ei phasio ymlaen i'r ymgeisydd. Roedd ymatebwyr yn gryf yn erbyn codi unrhyw ffi am y cynllun ac yn enwedig yn erbyn gweld y banciau'n gwneud unrhyw elw ohono.
103. Awgrymodd rhai, gan gynnwys rhai a oedd o blaid gweld y banciau'n rhedeg y cynllun, y byddai angen rhyw fath o drosolwg gan lywodraeth neu awdurdod lleol beth bynnag. Eglurodd ymatebwyr y byddai hyn yn sicrhau bod gwahanol gwmnïau'n gweinyddu'r cynllun ac egwyddorion y Ddeddf yn gyson.
104. Roedd chwarter yr ymatebwyr yn ansicr pwy a ddylai redeg y cynllun (25% allan o 207 o ymatebwyr) gyda rhai'n awgrymu bod angen mwy o wybodaeth am ofynion gweinyddol y cynllun cyn gallu gwneud penderfyniad.
105. Roeddent yn awgrymu pa ganllawiau clir fyddai eu hangen a sut y byddai hyn yn gweithio'n ymarferol. Roeddent yn egluro y byddai hyn yn allweddol i sicrhau cysondeb ar draws gwahanol sefydliadau, ac yn rhoi sylw i'r risg bod sefydliad yn addasu'r broses i'w sefydliad. Dywedodd rhai hefyd y byddai angen canllawiau pellach gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, yn enwedig ar drin cwynion ac apeliadau.

Ymgeiswyr

Cwestiwn 13: Pa ddull y teimlwch a fyddai fwyaf priodol i benderfynu ar addasrwydd ymgeisydd: dull A neu ddull B?

106. Dull A: Awdurdod presennol i reoli arian, fel penodai'r Adran Gwaith a Phensiynau neu berson cyswllt ar gyfer Cronfa Ymddiriedolaeth Plant
107. Dull B: Gwiriadau addasrwydd ehangach

Dull A	Dull B	Y ddau	Y naill na'r llall	Ddim yn gwybod	Cyfanswm yr ymatebion
62 (48%)	23 (18%)	7 (5%)	3 (2%)	35 (27%)	130

108. Teimlai bron i hanner yr ymatebwyr (48% o 130 ymateb) y dylai'r cynllun fabwysiadu dull A fel bod arian ond yn cael ei ryddhau i unigolion sydd ag awdurdodiad presennol i ofalu am arian, fel penodeion yr Adran Gwaith a Phensiynau. Teimlai ymatebwyr mai hyn a fyddai'r rhagofal mwyaf addas ac y byddai'n lleihau'r risg o gam-drin ariannol oherwydd bod gan ymgeiswyr gyfrifoldeb yn barod am ofalu am symiau eraill o arian ar ran deiliad y cyfrif. Dywedodd ymatebwyr fod pobl a benodir (penodeion) yn aml yn derbyn symiau sylweddol o arian ar ran unigolion heb alluedd ac yr ymddiriedir ynddynt i ofalu am yr arian hwn. Roeddent felly'n teimlo y dylid ymestyn yr awdurdod hwn i daliadau bach. Ystyriwyd bod dull B yn cyflwyno risg uwch ac felly y byddai angen mwy o ragofalon gan wneud yr opsiwn yma'n fwy cymhleth.
109. Ystyriwyd bod dull A hefyd yn haws i'w weinyddu na dull B oherwydd bod angen i fanciau wneud llai o wiriadau gweinyddol fel bo'r arian yn cael ei ryddhau'n gynt. At ei gilydd ystyriwyd bod dull B yn feichus i fanciau. Lleisiodd rhai cwmnïau ariannol bryderon sylweddol am wneud y gwiriadau addaswydd y byddai angen eu gwneud o dan ddull B. Nid oeddent yn meddwl bod ganddynt yr arbenigedd angenrheidiol a byddai'n well ganddynt ddibynnu ar ryw fath o awdurdodiad presennol.
110. Ar y llaw arall, roedd 18% o'r ymatebwyr o blaid dull B oherwydd ei fod yn hyblyg. Roeddent yn poeni y gallai cyfyngu ceisiadau i benodeion yr Adran Gwaith a Phensiynau neu bersonau cyswllt cofrestredig ar gyfer Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant eithrio unigolion sydd ag anghenion cyfreithlon a gwneud y cynllun yn anhygyrch i lawer. Teimlent fod dull B yn fwy addas ar gyfer ystod ehangach o amgylchiadau, gan gynnwys pryd yr oedd galluedd wedi'i golli'n annisgwyl, neu mewn achosion brys. Dywedodd rhai ymatebwyr y byddai gan y banciau berthynas yn barod â deiliaid cyfrifon ac ymgeiswyr ac felly na fyddai angen gymaint o wybodaeth efallai.
111. Awgrymodd rhai er y dylid defnyddio dull A ar gyfer y mwyafrif o achosion, y gellid defnyddio dull B pan oedd angen taer neu mewn amgylchiadau eithriadol eraill.

Cwestiwn 14: Sut y dylai ymgeiswyr ddangos eu haddasrwydd wrth wneud cais i'r cynllun?

112. Gofynnwyd i ymatebwyr roi ymateb testun rhydd i'r cwestiwn hwn. Roedd yr atebion mwyaf cyffredin fel a ganlyn.

Natur y berthynas

113. Awgrymodd llawer o'r ymatebwyr y dylai ymgeiswyr gyflwyno prawf o'u perthynas â deiliad y cyfrif. Awgrymwyd y dylid ystyried rhieni, gwarcheidwaid cyfreithiol a gofalwyr hirdymor yn ffafriol ac na ddylent wynebu dim neu bron ddim gwiriadau.

Prawf o awdurdodiad presennol i ofalu am fudd-daliadau neu gyfrifon yn enw unigolion heb alluedd meddyliol

114. Mae hyn yn unol ag atebion a roddwyd i gwestiwn 13. Yr enghreifftiau mwyaf cyffredin oedd penodeion yr Adran Gwaith a Phensiynau yn gofalu am fudd-daliadau Taliadau Annibynnol Personol (PIP) a phersonau cyswllt Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gellid hefyd gofyn am dystiolaeth i brofi bod arian wedi'i reoli'n gyfrifol hyd yma.
115. Awgrymodd ambell un y dylai unigolion sy'n derbyn lwfans gofalwyr hefyd gael eu hystyried yn addas. Fodd bynnag dylid nodi nad yw derbyn lwfans gofalwyr yn rhoi awdurdod i unigolion i reoli arian ar ran rhywun arall ac nad yw ychwaith yn brawf bod person yn gofalu am rywun sydd efallai heb alluedd meddyliol.

Prawf o ddiffyg galluedd

116. Awgrymodd llawer y dylai ymgeiswyr gyflwyno prawf o ddiffyg galluedd meddyliol gan ddeiliad y cyfrif. Teimlent y dylid derbyn ystod o wahanol dystiolaeth gan gynnwys ardystiad ymarferwyr, gwaith papur cynllun addysg a gofal iechyd, a chofnodion meddygol perthnasol.

Gwiriadau cefndir

117. Roedd nifer o'r ymatebwyr o blaid gwneud gwiriadau cefndir i gadarnhau addasrwydd ymgeiswyr. Roeddent yn amrywio o wiriadau credyd ac ID i wiriadau cofnod troseddol mwy dwys. Trafodir mwy ar y farn am wiriadau cefndir yng nghwestiwn 17.

Geirda cymeriad gan weithiwr proffesiynol

118. Awgrymodd rhai y dylai'r ymgeisydd gynnwys geirda cymeriad gan weithiwr proffesiynol fel cyflogwr, meddyg teulu neu athro / athrawes i fanciau. Roedd hyn er mwyn rhoi sicrwydd o gymeriad da. Trafodir mwy ar y farn am ddarparwyr geirda yng nghwestiynau 19 i 22.

Rhesymau dros wneud cais

119. Awgrymodd rhai y dylai ymgeiswyr roi eu rheswm dros wneud cais i'r cynllun, i gadarnhau eu bod yn gweithredu er lles gorau deiliad y cyfrif. Trafodir hyn ymhellach yng nghwestiwn 15.

Diogelwch

120. Er yn cydnabod y byddai'r mwyafrif helaeth o rieni, gwarcheidwaid ac eraill yn gweithredu er lles gorau'r person heb alluedd, gwyddom nad yw hyn bob amser yn digwydd. Oherwydd natur agored i niwed deiliaid cyfrifon, roeddem yn awyddus iawn i sicrhau bod gan unrhyw gynllun ragofalon boddhaol i warchod rhag twyll a chamddefnyddio arian, gan ddod i'r casgliad felly y dylai unrhyw gynllun gynnwys rhywfaint o ragofalon. Roedd yr awgrymiadau yn cynnwys darparwr geirda, gwirio hanes ariannol yr ymgeisydd a datganiad gan yr ymgeisydd yn nodi sut y byddai'r arian yn cael ei wario.

Cwestiwn 15: A ddylai ymgeiswyr orfod rhoi eu rhesymau dros ddefnyddio'r broses hon yn lle gwneud cais am orchymyn dirprwy neu untro i'r Llys Gwarchod?⁷

Dylent	Na ddylent	Ddim yn gwybod	Cyfanswm yr ymatebion
125 (63%)	54 (27%)	18 (9%)	197

121. Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (63% o 197 o ymatebion) y dylai ymgeiswyr orfod rhoi eu rhesymau dros ddefnyddio'r cynllun taliadau bach yn lle gwneud cais am orchymyn i'r Llys Gwarchod.
122. Teimlai'r ymatebwyr fod cofnodi rhesymau'n un o'r rhagofalon pwysig a fyddai'n darparu trywydd archwilio clir, mwy o atebolrwydd a bod yn arwydd o risg cam-drin ariannol. Yn fwyaf cyffredin, dywedodd ymatebwyr fod hyn yn gyfle i sicrhau bod yr ymgeisydd yn bwriadu gweithredu er lles gorau deiliad y cyfrif.
123. Roedd eraill o blaid yn meddwl ei bod yn bwysig annog ymgeiswyr i ystyried opsiynau eraill ar gyfer cael mynediad at arian a rhoi cyngor iddynt ar ffyrdd eraill o gael awdurdod cyfreithiol mwy hirdymor. Yn benodol, dywedodd rhai y dylid gofyn i unigolion gyfiawnhau pam nad oeddent yn bwriadu gofalu am yr arian yn hirdymor, os oedd hynny'n fwriad.
124. Ni theimlai'r rhai oedd yn erbyn yr opsiwn hwn ei bod yn briodol na'n deg gofyn i deulu a gofalwyr gyfiawnhau defnyddio'r cynllun. Awgrymodd eraill fod y cam hwn yn ychwanegu cymhlethdod, biwrocratiaeth a straen i'r broses o wneud cais. Teimlent hefyd mai rhagofal gwan ar sail ymddiriedaeth a fyddai oherwydd na allai'r banciau gadarnhau bwriad gyda deiliad y cyfrif. Tynnodd rai sylw nad oedd trefniant dirprwy'n addas i bawb gan awgrymu y byddai'r rhesymau mwyaf cyffredin am ddefnyddio'r

⁷ Mae'r canrannau ymateb yn adio i fwy na 100% oherwydd talgrynnu.

cynllun yn ymwneud â natur anghymesur proses y Llys Gwarchod ar gyfer symiau bach.

Cwestiwn 16: A ddylai ymgeiswyr orfod datgan yn eu cais ar beth y bwriedir gwario'r arian?

Dylent	Na ddylent	Ddim yn gwybod	Cyfanswm yr ymatebion
109 (56%)	71 (36%)	16 (8%)	196

125. Awgrymodd 56% o'r 196 o ymatebion y dylid gofyn i ymgeiswyr ddatgan ar beth y byddai'r arian yn cael ei wario. Yn fwyaf cyffredin, teimlai ymatebwyr y byddai hyn yn helpu i ddiogelu oedolion agored i niwed rhag cam-drin ariannol ac yn cadarnhau mai'r bwriad oedd defnyddio'r arian er lles gorau deiliad y cyfrif.
126. Er bod llawer o blaid mwy o dryloywder, awgrymodd rhai y dylai datgan sut y bwriedir defnyddio'r arian fod yn lefel-uchel ac na ddylai ragnodi gofynion. Byddai hyn yn gadael i unigolion ddefnyddio'r arian yn hyblyg, oherwydd gall anghenion newid dros amser, neu efallai na fyddai rhai'n gallu rhagweld yn gywir ar beth y byddent yn gwario'r arian.
127. Roedd rhai ymatebwyr yn poeni am fanciau'n dyfarnu ar beth y dylid gwario'r arian ac yn bryderus y gallai fod cyfyngiadau o ran beth y gallent ei brynu os nad oedd y banc yn cytuno. Teimlent y byddai hyn yn gwahaniaethu oherwydd y gallai oedolion eraill wario eu harian heb gael eu barnu.
128. Roedd dadleuon eraill yn erbyn y cynnig hwn yn cynnwys na fyddai gwneud y datganiad hwn llawer o werth os na allai'r banciau wirio wedyn ar beth y gwariwyd yr arian. Heb unrhyw gamau dilynol neu ffordd o wirio derbyniadau, teimlwyd fod y datganiad yn ddi-fudd. Dadleuai eraill y byddai'n cynyddu'r baich gweinyddol ar rieni gan dynnu sylw nad oedd angen gwneud hyn gyda cheisiadau am fod yn benodai. Trafodir hyn ymhellach yng nghwestiwn 28.

Cwestiwn 17: A ddylai cwmnïau gwasanaethau ariannol fod yn gofyn am wybodaeth am hanes ariannol yr ymgeisydd (fel methdal, ansolfedd, dyled)?

Dylent	Na ddylent	Ddim yn gwybod	Cyfanswm yr ymatebion
83 (42%)	79 (40%)	35 (18%)	197

129. Roedd y farn am y cwestiwn hwn yn gymysg heb unrhyw gonsensws clir, gyda 42% o blaid a 40% yn erbyn yr awgrym.

130. Teimlai'r rhai o blaid y byddai'n rhagofal da gan roi mwy o sicrwydd ac ymddiriedaeth bod yr arian yn cael ei ryddhau i berson priodol. Roeddent yn teimlo y gallai'r gwiriadau hyn fod yn arwydd o gam-drin posibl gan awgrymu y dylai prawf o fethu â gallu gofalu am eich arian eich hun fod yn ffactor wrth wneud penderfyniad. Er enghraifft, lleisiodd rhai bryderon y gallai'r ymgeisydd ddefnyddio'r arian a fyddai'n cael ei ryddhau drwy'r cynllun i glirio dyled bersonol.
131. Ar y llaw arall, teimlai rhai na ddylai'r banciau'n ofyn am hanes ariannol oherwydd nad oeddent yn meddwl ei fod yn berthnasol i'r broses. Nid oeddent yn meddwl bod hanes credyd gwael, neu hanes o fethdalau, yn arwyddion y byddai'r arian yn cael ei gam-reoli. Dywedodd rhai hefyd fod gan bobl sy'n gofalu efallai hanes credyd gwael oherwydd methu â gallu gweithio'n llawn amser ond nad oedd hyn yn effeithio ar lefel eu gofal am yr unigolyn.
132. Awgrymodd eraill na ddylai fod angen y gwiriadau ychwanegol hyn os oedd yr ymgeisydd yn benodai (person wedi'i benodi), ac eisoes yn gyfrifol am fudd-daliadau, neu pe bai dull A yn cael ei ddefnyddio gyda gwiriadau addasrwydd (cwestiwn 13). Roeddent felly'n awgrymu dull ar sail disgresiwn lle y gofynnid am wybodaeth gan yr ymgeisydd dim ond lle'r oedd pryder am ei addasrwydd.
133. Roedd dadleuon eraill yn erbyn hyn yn cynnwys pryderon y byddai'n ymwithiol ac anghymesur i symiau bach. Roedd rhai'n poeni y byddai'n ychwanegu cost, baich gweinyddol ac oedi i'r broses.

Cwestiwn 18: A oes unrhyw achosion lle na ddylai arian gael ei ryddhau i unigolion?

Oes	Nac oes	Ddim yn gwybod	Cyfanswm yr ymatebion
112 (58%)	32 (17%)	49 (25%)	193

134. Dywedodd 58% o 193 o ymatebion fod rhai achosion lle na ddylai arian gael ei ryddhau i unigolion. Y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd oedd:
- gwiriadau cefndir aflwyddiannus neu euogfarnau neu amheuron o dwyll neu gam-drin ariannol
 - hanes o fethdalau a dyled
 - pryder neu brawf nad oedd yr arian yn cael ei ddefnyddio er lles gorau deiliad y cyfrif
 - pryderon diogelu - er enghraifft hanes o gam-drin neu fod yr ymgeisydd yn ddrwgweithredwr hysbys mewn ymholiadau diogelu
 - lle'r oedd sefydliad gwasanaethau ariannol wedi derbyn pryderon neu wrthwynebiadau uniongyrchol gan deulu, ffrindiau, awdurdod lleol neu asiantaethau eraill

- prawf annigonol o ddiffyg galluedd
- dylid cynyddu'r craffu os nad yw'r ymgeisydd yn berthynas agos i ddeiliad y cyfrif neu os na ellid cyflwyno prawf o berthynas

135. Roedd 74% o'r rhai a roddodd reswm am eu hymateb (82 allan o 111 o ymatebwyr) wedi rhoi ymateb yn ymwneud a'r pwynt cyntaf, yr ail bwynt a'r pedwerydd pwynt uchod. Mae'n werth nodi yma, er mwyn atal rhyddhau arian i unigolion y byddai'r pwyntiau hyn yn berthnasol iddynt, y byddai angen gwiriadau cefndir fel cofnodion troseddol, methdalau neu ymholiadau diogelu eraill.
136. Fel gyda chwestiwn 16, roedd barn gymysg am ofyn am hanes ariannol gan ymgeiswyr, gan gynnwys pryderon y byddai'n anghymesur o ystyried y symiau bach dan sylw, a'r gwaith gweinyddu ac oedi y byddai'r gwiriadau'n ei achosi.
137. Dangosodd yr ymatebion i gwestiynau 17 ac 18 y tensiwn rhwng faint o warchodaeth y teimlai'r ymatebwyr y dylai'r cynllun ei roi (cwestiwn 18) a'r wybodaeth y teimlent y dylid ei chasglu i ddarparu'r rhagofalon angenrheidiol (cwestiwn 17). Byddai mwy o wiriadau cefndir a throseddol yn debygol o gael ei weld fel rhywbeth mwy ymwithiol fyth a fyddai, yn anochel, yn rhoi mwy o faich gweinyddol ar yr ymgeisydd a'r banciau. Byddai hyn yn cynyddu'r amser i brosesu ceisiadau ac efallai'n cael ei ystyried i fod yn anghymesur o ystyried y symiau bach. Nid oedd consensws barn am hyn sy'n awgrymu y byddai angen cyfaddawdu i ddarparu cynllun sy'n cwrdd â'r nod o fod yn symlach na'r prosesau presennol ond gan sicrhau nad yw arian yn cael ei ryddhau i unigolion os oes pryderon gwirioneddol wedi codi.

Cwestiwn 19: A ddylai ymgeiswyr orfod rhoi manylion cyswllt darparwr geirda sy'n hysbys i ddeiliad y cyfrif wrth wneud cais i gynllun taliadau bach?⁸

Dylent	Na ddylent	Ddim yn gwybod	Cyfanswm yr ymatebion
107 (55%)	52 (27%)	37 (19%)	196

138. Teimlai 55% o 196 o ymatebion y dylai ymgeiswyr orfod rhoi manylion darparwr geirda wrth wneud cais.
139. Teimlai llawer fod hyn yn rhagofal da oherwydd y gallai darparwyr geirda dystio i gymeriad a pha mor ddibynadwy oedd yr ymgeisydd. Er bod barn gref ar draws yr ymatebion, dywedodd rhai nad yw'r rhagofalon a roddir gan ddarparwyr geirda bob tro'n rhai cadarn. Er enghraifft, dywedodd rhai y gallai ymgeisydd ffugio neu gyd-gynllwynio â darparwr geirda. Awgrymodd eraill na fyddai darparwr geirda bob amser yn cymryd ei rôl o ddifrif. Ond dywedodd rhai y gellid lliniaru'r risg drwy gyfyngu

⁸ Mae'r canrannau ymateb yn adio i fwy na 100% oherwydd talgrynnu.

darparwyr geirda i weithwyr proffesiynol (fel athrawon, meddygon, awdurdodau lleol) yn hytrach na ffrindiau a theuluoedd.

140. Roedd rhai ymatebwyr o blaid darparwyr geirda ond nid os oedd yr ymgeisydd yn rhiant neu'n rhywun a oedd eisoes yn derbyn budd-daliadau. Yn yr achos yma, awgrymodd rhai y byddai angen llai o wiriadau, yn unol â'r ymatebion a drafodwyd yn flaenorol (cwestiwn 17).
141. Roedd y rhai nad oeddent o blaid cynnwys darparwyr geirda'n meddwl y byddent yn rhwystr oherwydd y gallai rhai ymgeiswyr gael trafferth dod o hyd i rywun priodol. Ar y cyfan, roeddent yn meddwl y byddai'r gofyniad hwn yn feichus a chymhleth ac yn cynyddu'r baich gweinyddu ar gyfer y cynllun.

Cwestiwn 20: A ddylai cwmnïau gwasanaethau ariannol orfod cysylltu â darparwyr geirda enwebedig pob tro cyn gwneud taliad?⁹

Dylent	Na ddylent	Ddim yn gwybod	Cyfanswm yr ymatebion
74 (38%)	81 (42%)	40 (21%)	195

142. Roedd yr ymateb i'r cwestiwn hwn yn gymysg heb unrhyw gonsensws cryf. Dywedodd 38% (74 allan o 195 ymateb) y dylai cwmnïau gwasanaethau ariannol gysylltu â darparwyr geirda enwebedig pob tro cyn gwneud taliad. Roeddent yn dadlau bod hyn yn rhagofal da rhag twyll ac yn debygol o atal rhai gyda bwriadau maleisus. Teimlai rhai hefyd y byddai'n aneffeithiol gofyn am fanylion darparwr geirda ac yna peidio cysylltu â nhw, gan felly wanhau'r rhagofal.
143. Er i 42% (81 allan o 195 ymateb) ateb 'na ddylent' i'r cwestiwn hwn, roedd ymatebion llawer yn amodol. Ni theimlai'r ymatebwyr y dylid cysylltu â darparwyr geirda gyda phob cais, ond awgryment y byddai'n briodol mewn rhai amgylchiadau. Er enghraifft, os oedd y banc yn teimlo bod angen cynnig sicrwydd ychwanegol neu os oedd pryder am gais penodol. Awgrymodd ymatebwyr eraill nad oedd angen cysylltu â darparwyr geirda os oedd y cais yn cael ei wneud gan aelod agos o'r teulu neu benodai.
144. Dywedodd y rhai a oedd yn erbyn cysylltu â darparwyr geirda y byddai'n ychwanegu amser, cymhlethdod, oedi a chostau gweinyddol i'r broses. Roeddent yn poeni am y baich y byddai'n ei roi ar gwmnïau ac yn meddwl bod y gofyniad yn anghymesur i'r symiau bach o arian a fyddai'n cael eu talu drwy'r cynllun.

⁹ Mae'r canrannau ymateb yn adio i fwy na 100% oherwydd talgrynnu.

Cwestiwn 21: A ddylai'r darparwr geirda enwebedig orfod llofnodi datganiad yn y broses gwneud cais yn cadarnhau ei fod yn adnabod deiliad y cyfrif a'r ymgeisydd, ac yn deall pwrpas y cynllun?

Dylai	Na ddylai	Ddim yn gwybod	Cyfanswm yr ymatebion
108 (56%)	58 (30%)	26 (14%)	192

145. Roedd 56% o'r 192 o ymatebion yn cytuno y dylai'r darparwr geirda lofnodi datganiad yn cadarnhau ei fod yn adnabod deiliad y cyfrif a'r ymgeisydd, ac yn deall pwrpas y cynllun.
146. Awgrymodd y rhai a oedd o blaid fod hyn yn rhagofal da rhag twyll a bod darparwyr geirda'n fwy tebygol o gymryd eu rôl o ddifrif o ganlyniad. Byddai hefyd yn rhoi sicrwydd i'r holl bartïon fod pawb yn deall pwrpas y cynllun.
147. Roedd y rhai yn erbyn yn dadlau ei fod yn rhy gymhleth ac anghymesur gan ychwanegu rhwystrau i'r broses. Teimlai eraill na fyddai'r broses yn ddigon cadarn ac y byddai'n dal yn bosibl i bartïon twyllodrus gyd-gynllwynio. Awgrymwyd y byddai'n well cysylltu â darparwyr geirda.

Cwestiwn 22: Ydy cyfnod hysbysu o bythefnos yn briodol / digon hir i roi amser i ddeiliad y cyfrif neu'r darparwr geirda wrthwynebu?¹⁰

Ydy	Nac ydy	Ddim yn gwybod	Cyfanswm yr ymatebion
101 (54%)	54 (29%)	33 (18%)	187

148. Roedd 54% yn cytuno bod cyfnod hysbysu o bythefnos yn ddigon i wrthwynebu. Nid oedd y rhan fwyaf a atebodd 'ydy' wedi rhoi rheswm am eu hymateb. Ond awgrymodd y rhai a roddodd reswm fod y cyfnod hysbysu'n rhagofal da, a phythefnos yn gydbwysedd da rhwng sicrhau proses gyflym a diogel.
149. Ni roddodd y rhai a atebodd 'nac ydy' a 'ddim yn gwybod' fwy o resymau am eu hymateb. Roedd llawer yn poeni nad oedd pythefnos yn ddigon i wrthwynebu os oedd y person a fyddai'n cael ei hysbysu ar wyliau neu angen amser i gasglu tystiolaeth. Yn fwyaf cyffredin, awgrymodd y rhai a roddodd atebion 'testun rhydd' y dylid ymestyn y cyfnod hysbysu i bedair wythnos, yr un fath â'r broses atwrneiaeth arhosol.

¹⁰ Mae'r canrannau ymateb yn adio i fwy na 100% oherwydd talgrynnu.

150. Dywedodd rhai nad oedd pythefnos yn briodol ar gyfer sefyllfaoedd brys ac y byddai banciau mae'n debyg yn gwneud taliadau ar sail risg dros y cyfnod hwn pe bai angen brys yn codi.

Cwestiwn 23: Pa risg, os o gwbl, a fyddai ynghlwm â'r dull hwn o hysbysu darparwyr geirda a deiliaid cyfrifon?

151. Roedd 81 ymatebwr wedi rhoi ymateb testun rhydd i'r cwestiwn hwn. Roedd yr ymatebion mwyaf cyffredin yn lleisio pryder am yr amser y byddai'n ei gymryd i wasanaethau ariannol hysbysu darparwyr geirda a goblygiadau aros i'r cyfnod hysbysu llawn orffen, yn enwedig os oedd angen arian ar frys. Ar y llaw arall, teimlai rhai bod y cyfnod hysbysu'n rhy fyr a bod risg na allai'r person a fyddai'n cael ei hysbysu ymateb mewn pryd. Roedd hyn yn bryder arbennig i rai a ddibynnai ar wasanaethau post.
152. Cyfeiriodd eraill at risg o droseddu neu dwyll pe bai'r ymgeisydd a'r darparwr geirda'n cyd-gynllwynio. Teimlent y gallai diffyg gwiriadau trydydd parti wanhau'r rhagofalon y gallai darparwr geirda eu cynnig.
153. Dywedodd rhai y byddai cynnwys person arall yn y broses o wneud cais yn cyflwyno sefyllfa ariannol a diffygion galluedd meddyliol deiliad y cyfrif i bobl na fyddai wedi bod yn ymwybodol ohonynt o'r blaen. Gallai wneud deiliad y cyfrif yn fwy agored i gael ei gam-drin.

Dulliau talu

Cwestiwn 24. Pa ddull talu / tynnu allan y dylai'r cynllun ei ddefnyddio a pham?

- Opsiwn 1 – arian yn cael ei dalu'n syth i'r ymgeisydd
- Opsiwn 2 – arian yn cael ei dalu'n syth i ddarparwyr nwyddau a gwasanaethau
- Opsiwn 3 – y ddau

Opsiwn 1	Opsiwn 2	Opsiwn 3	Ddim yn gwybod	Arall	Cyfanswm yr ymatebion
66 (50%)	8 (6%)	37 (28%)	7 (5%)	14 (11%)	132

154. Awgrymodd 50% o'r 132 o ymatebion y dylid gwneud taliadau'n syth i'r ymgeisydd (opsiwn 1). Teimlai'r ymatebwyr mai hyn a fyddai'r opsiwn mwyaf syml, sydyn ac effeithiol gan roi mwy o annibyniaeth a hyblygrwydd i'r ymgeisydd o ran sut i wario'r arian.

155. Awgrymodd rhai a oedd o blaid opsiwn 1 y dylid cefnogi hyn gyda mesurau diogelwch ychwanegol. Un awgrym cyffredin oedd rhyddhau arian i gyfrif banc trydydd parti ar wahân er mwyn gallu monitro'n well. Byddai hefyd yn rhwystro cymysgu arian wedi'i ryddhau gan y cynllun ac arian personol yr ymgeisydd. Ymhlith mesurau diogelwch eraill oedd gwiriadau ID ac uchafsymiau tynnu allan untro'n unig. Pwysleisiodd ymatebwyr hefyd ba mor bwysig oedd sicrhau trywydd archwilio clir ar gyfer gwariant i gynyddu atebolrwydd yr ymgeisydd.
156. Opsiwn 3 (y ddau) oedd yr ail opsiwn mwyaf poblogaidd (28% o 132 o ymatebion). Ni roddodd llawer o'r ymatebwyr ymateb testun rhydd i egluro eu hymateb ond, o'r rhai a wnaeth, teimlent mai opsiwn 3 oedd fwyaf hyblyg. Awgryment er y byddai taliadau uniongyrchol yn addas i'r rhan fwyaf, y gallai fod achosion lle y byddai banciau eisiau cyfyngu ar dalu allan yn syth i ymgeisydd a thalu'r arian yn syth i ddarparwyr gwasanaeth neu nwyddau, rhag ofn.
157. Opsiwn 2 (tal i ddarparwyr nwyddau a gwasanaethau) oedd yr un lleiaf poblogaidd (5%) oherwydd ei fod yn gyfyngus ac yn dibynnu ar roi rôl i drydydd partion. Teimlai ymatebwyr y gallai opsiwn 2 fod yn feichus i gwmnïau gwasanaethau ariannol oherwydd y gwaith ychwanegol o adolygu anfonebau a thalu gwasanaethau. Dywedodd eraill y byddai hyn yn anfantais i'r ymgeisydd a allai fod allan o boced cyn derbyn ad-daliad gan gwmnïau gwasanaethau ariannol.
158. Fodd bynnag, dywedodd rhai mai opsiwn 2 a fyddai'r un mwyaf diogel oherwydd gellid lleihau unrhyw gam-drin ariannol drwy dalu darparwyr yn uniongyrchol ac olrhain yr arian. Roedd eraill yn dadlau y byddai angen mwy o fesurau diogelwch i wirio darparwyr cyn rhyddhau taliadau.

Cwestiwn 25a: Pa risg, os o gwbl, a fyddai ynghlwm â'r dulliau arfaethedig o dalu / tynnu allan?

159. Roedd 72 ymatebwr wedi rhoi ymateb testun rhydd i'r cwestiwn hwn. Roedd dros eu hanner yn credu y gallai'r dulliau arfaethedig gynyddu'r risg o gam-drin ariannol.
160. Eglurodd yr ymatebwyr na fyddai'r arian efallai'n cael ei ddefnyddio er lles gorau'r person agored i niwed ac y gallai fod yn anodd olrhain arian a gamddefnyddiwyd. Dywedodd rhai mai opsiwn 1 a allai fod fwyaf agored i gael ei gamddefnyddio oherwydd y byddai gan yr ymgeisydd reolaeth annibynnol o'r arian. Dywedodd eraill y gallai taliadau arian parod gynyddu'r risg eto oherwydd y drafferth gyda monitro gwario arian parod.
161. Fodd bynnag, tynnodd rai sylw fod y risg yn dibynnu ar wiriadau diogelwch ac y gellid lliniaru yn erbyn risg pe bai rhagofalon digonol yn eu lle. Tynnodd eraill sylw y gallai gweinyddu'r cynllun gyflwyno risg o oedi. Dywedodd rhai na fyddai'r dulliau

arfaethedig efallai'n gweithio i Gronfeydd Ymddiriedolaeth Plant os oedd cyfyngiadau ar gael mynediad at arian.

Cwestiwn 25b: O ran opsiynau 2 a 3, pa risg, os o gwbl, a fyddai ynghlwm â'r dulliau arfaethedig o dalu / tynnu allan?

162. Roedd 38 ymatebwr wedi rhoi ymateb testun rhydd i'r cwestiwn hwn. Roedd y themâu mwyaf cyffredin yn ymwneud â phryderon am gam-drin ariannol, gwasanaethau ariannol yn gweinyddu'r cynllun, a chyfyngiadau gyda dulliau talu.
163. Ar gyfyngiadau gyda dulliau talu, teimlai llawer fod opsiwn 2 yn rhy gyfyngus oherwydd bod taliadau uniongyrchol wedi eu heithrio. Dywedodd rhai nad oedd hyn yn briodol ar gyfer gwariant o ddydd i ddydd ac na fyddai'n addas lle'r oedd angen brys.
164. Pwysleisiodd ymatebwyr eraill y gallai opsiynau 2 a 3 gynyddu'r baich ar gwmnïau gwasanaethau ariannol oherwydd bod angen prosesu'r taliadau rhwng y cwmni a darparwyr. Roedd rhai'n poeni y gallai'r gwaith ychwanegol gynyddu gwallau gweinyddol a thalu.
165. Dywedodd rhai, pa bynnag opsiwn talu a fyddai'n cael ei ddefnyddio, y byddai risg o hyd y gallai'r arian gael ei gamwario.

Cwestiwn 26: O ran opsiwn 2 (talun syth i'r darparwr) ac opsiwn 3 (talun syth i'r ymgeisydd ac i'r darparwr) a ddylid cael uchafswm gwario uwch ar daliadau (dros £2,500) a fyddai'n cael eu gwneud yn syth i ddarparwyr nwyddau a gwasanaethau?

Dylent	Na ddylent	Ddim yn gwybod	Cyfanswm yr ymatebion
69 (39%)	63 (35%)	46 (26%)	178

166. Roedd yr ymateb i'r cwestiwn hwn yn gymysg gyda 39% (69 allan o 178) o blaid a 35% (63 allan o 178) yn erbyn cael uchafswm gwario uwch pan fyddai arian yn cael ei dalu'n syth i ddarparwyr nwyddau a gwasanaethau.
167. Dywedodd y rhai a oedd o blaid uchafswm gwario uwch nad oedd £2,500 yn ddigon i dalu am y rhan fwyaf o nwyddau a gwasanaethau oedd yn debygol o gael eu prynu drwy'r cynllun, fel nwyddau tŷ neu offer anabledd. Teimlai eraill y byddai talu'n syth i ddarparwyr nwyddau a gwasanaethau'n creu llai o risg cam-drin ariannol.
168. Awgrymodd rhai y dylid ychwanegu uchafswm ar gyfer taliadau gydag eraill yn argymhell trywydd archwilio clir i ddiogelu'n ychwanegol. Yr uchafswm taliad mwyaf cyffredin a awgrymwyd oedd £5,000.

169. Teimlai ymatebwyr nad oeddent o blaid cynyddu'r uchafswm y byddai trefniant dirprwy'n fwy priodol ar gyfer y math hwn o daliad. Dywedodd rhai y byddai'r risg ynghlwm â'r cynllun yn cynyddu gyda thaliadau uwch ac felly y byddai angen mwy o ragofalon. Dadleuai eraill y byddai'n cynyddu cymhlethdod, oedi a chost y broses.
170. Awgrymodd rhai uchafsymiau gwario uwch y gellid eu defnyddio fesul achos.

Archwilio gwariant

Cwestiwn 27: A ddylai ymgeiswyr orfod cadw derbynebaw o bob gwariant rhag ofn i wrthwynebiad godi yn y dyfodol?

Dylai	Na ddylai	Ddim yn gwybod	Cyfanswm yr ymatebion
117 (60%)	61 (31%)	18 (9%)	196

171. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (60% allan o 196) yn cytuno y dylai ymgeiswyr orfod cadw derbynebaw wrth wario arian wedi'i ryddhau drwy'r cynllun taliadau bach. Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd oedd bod cadw derbynebaw'n arfer da ac yn rhagofal hanfodol. Teimlai ymatebwyr y byddai hyn yn cadarnhau bod yr arian yn cael ei wario er lles gorau deiliad y cyfrif ac yn lleihau'r risg o gamddefnyddio'r arian.
172. Awgrymodd ymatebwyr nad oedd yn rhaid i'r gofyniad hwn fod yn rhy feichus ond y dylid cadw cofnod sylfaenol o dderbynebaw. Teimlai llawer fod hyn yn hollbwysig i sicrhau trywydd archwilio pe bai angen adolygu'r gwariant yn y dyfodol, er enghraifft pe bai pryderon yn codi am sut y gwariwyd yr arian neu pe bai'r person yn adennill galluedd.
173. Teimlai rhai hefyd y byddai'r gofyniad hwn yn lleihau honiadau o gam-drin ariannol oherwydd y byddai cofnod tryloyw o ddefnyddio'r arian. Dywedodd eraill ei bod yn arferol i rai a oedd yn gyfrifol am arian pobl eraill gadw cofnod ac na ddylai rhai a fyddai'n defnyddio'r cynllun hwn gael eu heithrio o hynny.
174. Teimlai rhai a oedd yn erbyn cadw derbynebaw y byddai'r baich gweinyddol yn rhy feichus, yn enwedig wrth jyglo cyfrifoldebaw gofalu. Roeddent yn ystyried y byddai hyn yn gwahaniaethu ac yn annheg ar ymgeiswyr. Teimlai eraill ei bod yn anghymesur cadw derbynebaw am symiau bach o arian. Dywedodd rhai na ddylai fod angen cadw derbynebaw ac y dylai cofnodion banc electronig fod yn ddigon. Ar y pwynt hwn, mae'n werth nodi na fydd cofnod electronig yn bosibl os yw'r holl arian yn cael ei dynnu allan yn syth mewn arian parod.

Cwestiwn 28: Os yw'r arian yn cael ei dalu'n syth i'r ymgeiswyr, a ddylai fod yn ofynnol iddynt adrodd yn ôl i'r cwmni gwasanaethau ariannol ar sut y gwariwyd yr arian, yn defnyddio derbynebaw fel prawf? ¹¹

Dylai	Na ddylai	Ddim yn gwybod	Cyfanswm yr ymatebion
60 (32%)	100 (53%)	27 (14%)	187

175. Dywedodd 53% o 187 o'r ymatebwyr na ddylai ymgeiswyr adrodd i gwmnïau gwasanaethau ariannol ar sut y gwariwyd yr arian.
176. Roedd y prif resymau a roddwyd yn ymwneud â phryderon am y baich gweinyddol ar fanciau ac ymgeiswyr. Roedd llawer yn cwestiynu sut y byddai disgwyl i fanciau weinyddu hyn a monitro gwariant. Roeddent hefyd yn dadlau y byddai'r gofyniad yn rhy ymwithiol ac anghymesur o ystyried y symiau bach o arian.
177. Awgrymodd eraill y byddai adrodd ond yn cynnig elfen o ragofal oherwydd y byddai'r arian wedi cael ei wario'n barod ar y pwynt hwn. Yn hytrach, roeddent yn awyddus i sicrhau bod digon o wiriadau cyn rhyddhau'r arian i fod yn sicr y byddai'r arian yn cael ei wario er lles gorau deiliad y cyfrif. Gofynnodd eraill gwestiynau am y camau gorfodi y gallai gwasanaethau ariannol eu cymryd yn rhesymol pe na bai gofynion adrodd yn cael eu dilyn, gan gwestiynu rôl cwmnïau gwasanaethau ariannol mewn plismona hyn.
178. Ar y llaw arall, awgrymodd y rhai a oedd o blaid y gofyniad ei fod yn rhagofal da a fyddai'n gwella tryloywder ac atebolrwydd, yn enwedig oherwydd bod yr ymgeisydd yn gwario arian rhywun arall. Awgrymwyd y byddai hyn yn lleihau'r risg o gam-drin, gan ddiogelu'n ychwanegol.
179. Awgrymodd rhai y dylid defnyddio ychydig o ddisgresiwn ac y dylid ond gofyn am gofnodion os oedd pryderon neu os oedd eitemau mawr wedi cael eu prynu. Ystyriwyd y byddai dull disgresiwn neu hap-wiriadau'n llai beichus ond yn parhau i fod yn rhwystr i gam-drin ariannol.

Cwestiwn 29: A ddylid cadw manylion deiliad y cyfrif a'r ymgeisydd ar gofrestr ganolog?

Dylid	Na ddylid	Ddim yn gwybod	Cyfanswm yr ymatebion
103 (53%)	42 (22%)	49 (25%)	194

¹¹ Mae'r canrannau ymateb yn adio i fwy na 100% oherwydd talgrynnu.

180. Teimlai 53% o'r 194 o ymatebwyr y dylid cadw manylion deiliad y cyfrif a'r ymgeisydd ar gofrestr ganolog.
181. Roedd y rhai o blaid yn cydnabod pwysigrwydd cofrestr i atal mynediad at nifer o wahanol gyfrifon ac i gadw trac ar geisiadau rheolaidd. Roeddent yn awgrymu bod cofrestr yn rhagofal da rhag cam-drin ariannol ac y byddai'n gwella atebolrwydd a thryloywder. Teimlai rhai y dylid cysylltu'r gofrestr ganolog i gofrestr dirprwyon ac atwrneiaeth arhosol Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus fel y gallai banciau hefyd wybod a dynnwyd atwrneiaeth arhosol neu drefniant dirprwy'n ôl ar gyfer ymgeisydd yn y gorffennol.
182. Er y gefnogaeth i gofrestr, roedd nifer o bobl wedi lleisio pryderon am gymhlethdod ei rheoli. Teimlai rhai y byddai'n rhy ddrud, yn cymryd gormod o amser ac yn anghymesur i symiau bach. Roedd eraill yn poeni am y pwysau ychwanegol y byddai rheoli'r gofrestr yn ei roi ar Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ac yn meddwl y byddai'n ychwanegu at oedi gyda chael mynediad at arian. Roedd ambell un wedi lleisio pryderon am gwmnïau a Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cyfnewid data personol sensitif i wirio a diweddarau'r gofrestr.

Cwestiwn 30: Os dylid, mae'n debyg y byddai cost ynghlwm â hyn. A fyddai'n gymesur codi ffi gwneud cais er mwyn talu am gostau trosolwg yn ymwneud â chynnal y gofrestr ganolog a gwneud gwiriadau, y gallai darparwyr gwasanaethau ariannol ddewis eu pasio ymlaen i ymgeiswyr?

Byddai	Na fyddai	Ddim yn gwybod	Cyfanswm yr ymatebion
48 (27%)	116 (64%)	17 (9%)	181

183. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (64% o 181 o ymatebion) na ddylid codi ffi.
184. Teimlai rhai y byddai codi ffi'n beth gormodol i'w wneud neu'n anghymesur, ac y byddai'n rhwystr pellach i gael gafael ar symiau bach o arian, yn enwedig Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant. Byddai ffi, meddent, yn cosbi deiliad cyfrif heb alluedd meddyliol yn annheg ac nad oedd yn deg codi ffi oherwydd mai nhw oedd yn berchen ar yr arian.
185. Awgrymodd rhai y dylid adennill unrhyw gost mewn ffordd arall, gan awgrymu y gallai cwmnïau ddewis 'amsugno' y costau neu y gallai arbedion yn y Llys Gwarchod gyfrannu'n ariannol at y costau hyn. Awgrymodd rhai y dylai'r llywodraeth ysgwyddo'r costau i gyd, fel y corff a fyddai'n cyflwyno'r cynllun.

186. Awgrymodd y rhai a atebodd 'byddai' y gallai codi ffi atal ceisiadau maleisus a'i bod yn rhesymol codi ffi fel bo'r broses yn fwy tryloyw a diogel. Awgryment y dylid capio'r ffioedd a'u cadw'n gymharol isel i dalu am gostau gweinyddol cynnal y gofrestr ond gan gydnabod y byddai hyn yn is na chostau'n gysylltiedig â cheisiadau i'r Llys Gwarchod.

Cwestiwn 31: A ddylid cael uchafswm o ran faint o wahanol gyfrifon y gall unigolyn gael mynediad atynt ar unrhyw adeg? ¹²

Dylid	Na ddylid	Ddim yn gwybod	Cyfanswm yr ymatebion
120 (63%)	43 (23%)	28 (15%)	191

187. Teimlai'r mwyafrif o ymatebwyr (63% o 191 o ymatebion) y dylid cael uchafswm o ran faint o wahanol gyfrifon y gall un ymgeisydd gael mynediad atynt.

188. Awgrymodd y rhai o blaid y byddai hyn yn rhagofal da rhag twyll ac yn lleihau'r risg o gam-drin. Teimlai rhai mai'r Llys Gwarchod a fyddai fwyaf addas i bobl a oedd eisiau cael mynediad at nifer o gyfrifon gan unigolyn, gan awgrymu y dylai'r gwiriadau fod yn fwy trylwyr ar gyfer y ceisiadau hyn.

189. Awgrymodd rhai y dylid fel arfer rhoi uchafswm o ddau gyfrif, a chaniatáu hyd at bedwar os oedd gan deulu nifer o blant heb alluedd meddyliol, er enghraifft. Awgrymodd eraill y dylai unrhyw uchafswm fod yn hyblyg i ganiatáu ar gyfer achosion eithriadol. Er enghraifft, gall gweithwyr gofal wneud ceisiadau ar gyfer cyfrifon nifer o wahanol bobl gyda chyfiawnhad llwyr. Dywedodd rhai, mewn achosion o geisiadau i gael mynediad at nifer o gyfrifon, y dylai ymgeiswyr gyfiawnhau pam fod angen hyn. Awgrymodd ambell un y dylid bod yn llai llym gyda cheisiadau gan aelodau teulu neu benodeion.

190. Roedd y rhai a oedd yn erbyn uchafswm yn poeni'n bennaf y gallai'r cyfyngiadau eithrio teuluoedd rhag gwneud cais lle'r oedd ganddynt nifer o aelodau'r teulu heb alluedd meddyliol. Roedd pryder hefyd y byddai gosod uchafswm yn golygu cael trefniadau trosolwg fel nad oedd dros yr uchafswm, a fyddai'n cynyddu'r baich gweinyddol o redeg y cynllun.

Cwestiwn 32: Pa fesurau atal twyll pellach, os o gwbl, sydd heb eu rhestru yma, sydd eu hangen yn eich barn chi?

191. Roedd 29 ymatebwr wedi rhoi ymateb testun rhydd i'r cwestiwn hwn. Rhestrir isod y themâu mwyaf cyffredin a gododd ohonynt.

¹² Mae'r canrannau ymateb yn adio i fwy na 100% oherwydd talgrynnu.

- **Gwiriadau cefndir:** Yn debyg i ymatebion blaenorol (cwestiynau 19 i 21), awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai fod angen gwiriadau cefndir ar gyfer ymgeiswyr fel rhai'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, gwiriadau hanes cofnod troseddol a thwyll a gwiriadau ID, yn ogystal â gwiriadau i gadarnhau na chawsant eu tynnu'n ôl o ddyletswyddau dirprwy neu atwrnai yn y gorffennol.
- **Datganiadau proffesiynol neu ardystiadau tystion:** Fel yr awgrymwyd yn yr ymatebion i gwestiwn 21, awgrymodd rhai y dylai ceisiadau gael eu cefnogi gan ddatganiad gan weithiwr proffesiynol yn cadarnhau dilysrwydd y cais. Gallai fod yn llythyr gan weithiwr gofal cymdeithasol neu feddyg ac yn ychwanegol at ymarferydd annibynnol yn cadarnhau diffyg galluedd.
- **Adrodd ar wariant a phenderfyniadau:** Awgrymodd rhai y dylid adolygu gwariant yn flynyddol, gydag un awgrym y dylai swyddogion y llys weinyddu'r archwiliadau hyn. Awgrymwyd hefyd y dylid cofnodi'r penderfyniadau ym mhob cam, a'u ffeilio at ddiben cyfeirio yn y dyfodol. Byddai hyn yn rhoi trywydd archwilio bod penderfyniadau'n cael eu gwneud er lles gorau deiliad y cyfrif.

192. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys ychwanegu cymal indemniad i'r cais (a drafodir yng nghwestiwn 6), hap-wiriadau ar hap-ymgeiswyr, ymweliadau â'r cartref a chraffu ar ddogfennau i sicrhau eu bod yn gyfreithlon.

Cwestiwn 33: A ddylid rhoi pwerau i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus i ymchwilio i fynediad drwy dwyll at y cynllun?

Dylid	Na ddylid	Ddim yn gwybod	Cyfanswm yr ymatebion
145 (76%)	20 (10%)	26 (14%)	191

193. Teimlai'r mwyafrif o ymatebwyr (76% allan o 191) y dylid rhoi pwerau i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus i ymchwilio i achosion o gael mynediad drwy dwyll at y cynllun, a fyddai'n rhagofal pwysig.
194. Dywedodd rhai y byddai hyn yn briodol oherwydd bod gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus drefniadau yn eu lle eisoes i ymchwilio i dwyll gyda phwerau atwrnai cofrestredig.
195. Ar y llaw arall, teimlai eraill mai'r banciau neu'r heddlu a ddylai ymchwilio'n defnyddio eu gweithdrefnau twyll hwy.
196. Teimlai ymatebwyr eraill y byddai rhoi pwerau i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus i ymchwilio i fynediad drwy dwyll yn anghymesur â'r symiau bach dan sylw. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn poeni am y gost a'r adnoddau ychwanegol ynghlwm â hyn.

Cwestiwn 34: Os dylid, mae'n debyg y byddai cost ynghlwm â hyn. Sut y dylid talu am y gost yma? Ffi am wneud cais, codi tâl ar drydydd parti am bob gwrthwynebiad, ateb arall?¹³

Ffi am wneud cais	Codi tâl ar drydydd parti	Arall	Cyfanswm yr ymatebion
29 (32%)	16 (18%)	46 (51%)	91

197. Roedd y rhan fwyaf (51% allan o 91) wedi ateb 'arall' ac felly ddim o blaid cael ffi am wneud cais neu godi tâl ar drydydd parti.
198. Roedd 67 o ymatebwyr wedi rhoi ymateb testun rhydd i egluro eu hateb. Roedd dros eu hanner yn poeni am y gost i'r ymgeisydd. Teimlai ymatebwyr na ddylai'r ymgeisydd dalu oherwydd y gallai ychwanegu rhwystr at gael mynediad at y cynllun. Awgrymodd rhai mai'r llywodraeth neu'r gwasanaethau ariannol a ddylai dalu fel darparwyr y cynllun.
199. Ar y llaw arall, ychydig iawn a oedd o blaid codi ffi am wneud cais (32% allan o 91) a roddodd ymateb testun rhydd. Roedd y rhai a oedd wedi yn meddwl y dylai'r ffi fod yn gymesur. Awgrymodd rhai y dylid codi ffi fach ar yr holl bartïon. Teimlai ambell un y byddai codi ffi am wneud cais yn gwella diogelwch y broses yn gyffredinol ac yn atal ceisiadau twyllodrus.

Cwestiwn 35: Pwy y dylid gofyn iddynt wneud iawn pe bai twyll yn digwydd?

200. Derbyniwyd 98 ymateb testun rhydd i'r cwestiwn hwn. Awgrymodd yr ymatebion mwyaf cyffredin y dylid adennill yr arian gan y person a oedd wedi twyllo, hynny yw, yr ymgeisydd gan amlaf mae'n debyg. Awgrymodd rhai unigolion y dylid hefyd gofyn i'r banciau, y llywodraeth neu'r heddlu wneud iawn am y twyll. Awgrymodd ambell un y gellid adennill yr arian drwy yswiriant neu fondiau sicrwydd, a ddylai gael ei drefnu wrth wneud cais.

Cwestiwn 36: Beth yw eich barn, os o gwbl, am sut y gellid rheoli atebolrwydd o dan y cynllun?

201. Roedd 40 o ymatebwyr wedi rhoi ymateb testun rhydd i'r cwestiwn hwn. Dywedodd rhai mai hyn oedd ffactor mwyaf cymhleth y cynllun. Yr awgrym mwyaf cyffredin oedd y dylid rheoli atebolrwydd drwy gynnwys cymal bond sicrwydd neu indemniad yn y broses o wneud cais, a defnyddio hynny wedyn i adennill unrhyw arian. Teimlai'r rhan fwyaf mai'r ymgeisydd a fyddai fod yn atebol. Awgrymodd nifer fach o ymatebwyr y gallai atebolrwydd fod yn gyfrifoldeb naill ai i'r llywodraeth neu'r

¹³ Mae'r canrannau ymateb yn adio i fwy na 100% oherwydd talgrynnu.

cwmnïau gwasanaethau ariannol. Fodd bynnag, awgrymodd ambell un na ddylai unrhyw gwmnïau ariannol a oedd yn dilyn y gweithdrefnau'n gywir fod yn atebol.

Symlrwydd

202. Roedd yr ymgynghoriad yn holi barn am ba mor hwylus a sydyn y byddai defnyddio a chwblhau'r cynllun taliadau bach. Roedd ymatebwyr yn poeni y gallai'r cynllun ailgyflwyno'r rhwystrau presennol a oedd yn digwydd gyda'r broses o wneud cais i'r llys. Dywedodd cwmnïau gwasanaethau ariannol y byddai'r cynllun yn anodd ei weinyddu gan ofyn am ymdrech anghymesur o ystyried y nifer fach o ymgeiswyr disgwylidig.
203. Os nad oes gan ddeiliad y cyfrif alluedd meddyliol, mae nifer o gwmnïau'n rhyddhau arian fel mater o drefn i aelodau teulu neu'n syth i gartref gofal neu gyflenwr mewn achosion brys, i dalu am bethau. Roeddent o'r farn y dylent barhau i fod yn gallu gwneud eu dyfarniadau ar sail risg eu hunain cyn rhyddhau symiau bach o arian lle'r oedd angen brys, heb broses ganolog.
204. Teimlai 80% o'r ymatebwyr y dylai'r cynllun ganiatáu gallu rhyddhau arian o fewn wythnos i fis, gyda 24% yn awgrymu wythnos neu lai.
205. Drwy ddadansoddi'r ymatebion, roedd tensiwn clir rhwng yr angen am ddiogelwch a sicrhau trefn syml.

Cwestiwn 37: Pa mor effeithiol y mae'r broses arfaethedig yn taro cydbwysedd rhwng diogelwch a sicrhau trefn syml?¹⁴

Anghytbwys tuag at ddiogelwch	Ychydig yn anghytbwys tuag at ddiogelwch	Cydbwyso'n effeithiol	Ychydig yn anghytbwys tuag at fod yn syml	Anghytbwys tuag at fod yn syml	Ddim yn siŵr	Cyfanswm yr ymatebion
19 11%	32 18%	63 36%	18 10%	5 3%	37 21%	174

206. Roedd yr ymateb i'r cwestiwn hwn yn gymysg heb unrhyw gonsensws cryf. Teimlai 36% o'r ymatebwyr y byddai'r cynllun yn cydbwyso'n effeithiol rhwng diogelwch a sicrhau trefn syml. Roeddent o'r farn bod y mesurau diogelwch yn gymesur i'r gwerth trothwy arfaethedig o £2,500 a pharhad chwe mis y cynllun, gan nodi y gallai'r cyfyngiadau hyn atal cam-drin ariannol. Ar y cyfan, cytunai'r ymatebwyr fod yn rhaid

¹⁴ Mae'r canrannau ymateb yn adio i fwy na 100% oherwydd talgrynnu.

i'r rhagofalon gydbwysu hygyrchedd a diogelwch ond roedd barn wahanol ynghylch beth oedd yn fesurau diogelwch digonol.

207. Teimlai 29% o'r ymatebwyr (51 allan o 174) fod y cynllun yn anghytwys neu ychydig yn anghytwys tuag at ddiogelwch. Roeddent yn meddwl bod y mesurau diogelwch yn anghymesur i'r symiau bach o arian, gan wneud y cynllun yn fwy cymhleth. Roeddent yn esbonio, oherwydd y mesurau diogelwch a gynigiwyd, nad oedd y cynllun yn opsiwn gwell na'r prosesau presennol ac, yn hytrach, yn debygol o roi costau a baich gweinyddol pellach ar y partïon. Teimlai rhai y byddai'r cynllun yn gyfyngus a bod risg y gallai ddyblygu'r rhwystrau ym mhroses bresennol y Llys Gwarchod.
208. Pwysleisiodd eraill, yn enwedig rhieni gyda diddordeb mewn cael mynediad at Gronfeydd Ymddiriedolaeth Plant, eu bod, fel penodeion gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, eisoes yn gyfrifol am symiau mwy o arian ar ran unigolyn agored i niwed na'r hyn yr oedd y cynllun yn ei gynnig, gyda llai o fesurau diogelwch. Esboniwyd ganddynt y dylai'r rôl hon ganiatáu iddynt dynnu symiau bach allan heb wiriadau llym pellach.
209. Ar y llaw arall, teimlai 13% o'r ymatebwyr (22 allan o 174) nad oedd gan y cynllun arfaethedig ddigon o fesurau diogelwch yn eu lle a'i fod yn anghytwys tuag at fod yn syml. Roeddent o'r farn bod angen mwy o ragofalon ar y cynllun i atal cam-drin ariannol, gan bwysleisio mai unigolion heb alluedd oedd y rhai mwyaf agored i gam-drin ariannol. Roedd rhai hefyd yn poeni y gallai cwmnïau gwasanaethau ariannol fod yn anghyson yn gweinyddu'r cynllun oherwydd diffyg rheolaeth ganolog.
210. Dywedodd ymatebwyr eraill fod angen mwy o fanylion arnynt am sut y byddai'r cynllun yn gweithio, er mwyn deall y cydbwysedd rhwng diogelwch a chadw pethau'n syml yn well.

Cwestiwn 38: Pa mor syml y teimlwch yw'r broses i ymgeiswyr?

Dim digon syml	Ddim yn syml iawn	Niwtral	Eithaf syml	Syml iawn	Ddim yn siŵr	Cyfanswm yr ymatebion
21 (12%)	42 (24%)	42 (24%)	34 (19%)	11 (6%)	26 (15%)	176

211. Yn ôl 56% o 176 o ymatebion, roedd y broses naill ai 'ddim digon syml' neu 'ddim yn syml iawn' i ymgeiswyr. Ar y llaw arall, dim ond 25% a deimlai y byddai'r cynllun yn syml i ymgeiswyr ei gwblhau.

212. Roedd 64 ymatebwr wedi rhoi ymateb testun rhydd i'r cwestiwn hwn. Teimlai llawer ohonynt y byddai gwneud y cais yn hygyrch a hawdd ei defnyddio'n gwneud y broses yn symlach.
213. Awgrymodd ymatebwyr y byddai un ffurflen hygyrch yn symlach na phroses bresennol y Llys Gwarchod. Dywedodd ymatebwyr eraill y dylid gweithredu nodweddion hygyrchedd drwy gydol y broses fel bo'r cais yn hygyrch i bawb.
214. Er y teimlai rhai y byddai'r broses yn symlach na phrosesau'r Llys Gwarchod ac atwrneiaeth ar hyn o bryd, roedd eraill o'r farn bod y rhagofalon oedd mewn golwg yn cynnwys gormod o fesurau diogelwch a fyddai'n anghymesur â'r symiau bach o arian. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr fod y rhagofalon arfaethedig yn gwneud i'r cynllun hwn edrych yn debyg i broses y Llys Gwarchod (er enghraifft, gorfod cael tystiolaeth o ddiffyg galluedd meddyliol a'r angen i roi gwybod i unigolion gyda diddordeb). Roeddent yn poeni y byddent yn wynebu'r un heriau wrth ddefnyddio'r cynllun hwn o ganlyniad.
215. Ar y llaw arall, teimlai eraill fod y broses arfaethedig yn rhy syml ac y dylid cael mwy o fesurau diogelwch i wella'r rhagofalon. Dywedodd eraill y byddai angen gwytodaeth glir i gynorthwyo'r ymgeisydd i ddeall a defnyddio'r system.

Cwestiwn 39: Pa mor syml yw'r broses i gwmnïau gwasanaethau ariannol?

Syml iawn	Eithaf syml	Niwtral	Eithaf anodd	Anodd iawn	Ddim yn siŵr	Cyfanswm yr ymatebion
12 7%	52 30%	33 19%	19 11%	10 6%	46 27%	172

216. Derbyniodd y cwestiwn hwn ymateb cymysg, gyda 37% (64 allan o 172 o ymatebwyr) yn meddwl bod y cynllun yn syml. Teimlai rhai bod cwmnïau gwasanaethau ariannol wedi arfer â gweinyddu prosesau tebyg. Fodd bynnag, teimlai 13 allan o 16 (81%) o'r cwmnïau a atebodd y cwestiwn hwn y byddai'r cynllun yn 'eithaf anodd' neu'n 'anodd iawn' i'w weinyddu.
217. Rhoddodd 41 o ymatebwyr ymateb testun rhydd i'r cwestiwn, gyda llawer yn dweud bod y broses yn rhy gymhleth ac anghymesur i gwmnïau gwasanaethau ariannol ei redeg. Dywedodd ymatebwyr y byddai'r cynllun yn creu baich gweinyddol i gwmnïau gwasanaethau ariannol a bod cymhlethdod y cynllun yn anghymesur i'r symiau bach o arian dan sylw.
218. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw y gallai'r galw am y cynllun taliadau bach fod yn isel, ac felly na fyddai'n creu digon o gymhelliad i'r gwasanaethau ariannol ei weinyddu.

219. Rhannodd ymatebwyr eu pryderon hefyd am anghysondebau yn y ffordd y gallai gwahanol gwmnïau gwasanaethau ariannol redeg y cynllun. Dywedodd rhai ymatebwyr efallai na fyddai dealltwriaeth cwmnïau gwasanaethau ariannol o'r Ddeddf yn drylwyr.
220. Dywedodd eraill y byddai angen mwy o wybodaeth i ddeall y broses yn iawn.
221. Mae'n werth nodi yma bod rhai cwmnïau gwasanaethau ariannol, yn dilyn yr ymgynghoriad, wedi lleisio pryderon cryf am symud ymlaen â chynllun taliadau bach, gan gynnwys drwy ohebu'n ysgrifenedig â gweinidogion.

Cwestiwn 40: A fyddai'r broses yn ymarferol i gwmnïau ariannol ei chyflwyno?

Byddai	Na fyddai	Ddim yn gwybod	Cyfanswm yr ymatebion
92 (52%)	16 (9%)	68 (39%)	176

222. Cytunodd 52% (92 allan o 176 o ymatebwyr) y byddai'r cynllun taliadau bach yn ymarferol i gwmnïau gwasanaethau ariannol ei gyflwyno. Allan o'r 21 o gwmnïau ariannol wnaeth ymateb, teimlai 52% y byddai'n ymarferol i'w gyflwyno, gyda 24% yn teimlo fel arall. Fodd bynnag, tynnodd rhai a ddywedodd y byddai'n ymarferol sylw unwaith eto at y trafferthion a nodir yng nghwestiwn 39.
223. Teimlai'r rhai a gytunodd y byddai'r broses yn syml oherwydd y gallai'r banciau adeiladu ar brosesau oedd eisoes ar waith. Dywedodd ymatebwyr eraill y byddai hyn yn dibynnu ar nifer y ceisiadau a'r adnoddau a fyddai ganddynt i brosesu'r cynllun.
224. Eglurodd eraill y byddai'r broses yn ymarferol i gwmnïau gwasanaethau ariannol ei chyflwyno gyda chanllawiau clir gan lywodraeth ar sut i redeg y cynllun.
225. Ar y llaw arall, dywedodd rhai ymatebwyr y byddai'r broses newydd yn fwy cymhleth na'r prosesau presennol i ryddhau arian. Tynnodd rhai sylw y byddai angen symleiddio'r cynigion er mwyn iddynt fod yn ymarferol.
226. Roedd eraill yn poeni am y costau a allai gael eu cyflwyno pe bai cwmnïau gwasanaethau ariannol yn rhedeg y cynllun, gan nodi y byddai angen cadw'r gost i ymgeiswyr mor isel â phosibl.

Cwestiwn 41: Pa elfennau, os o gwbl, fydddech chi'n eu hychwanegu neu dynnu allan o'r broses?

227. Roedd 75 ymatebwr wedi rhoi ymateb testun rhydd i'r cwestiwn hwn. Dywedodd dros eu hanner y byddent am i'r nodweddion diogelwch arfaethedig gael eu diwygio, ac

roedd gan rai wahanol farn am ychwanegu neu dynnu allan rhai nodweddion diogelwch yn llwyr.

228. Teimlai'r rhai a oedd yn dadlau o blaid ychwanegu mwy o elfennau diogelwch y byddai hyn yn rhoi mwy o ragofalon ac yn lleihau cam-drin ariannol. Awgrymodd rhai y dylid cynnwys rhagofalon pellach i wirio addasrwydd yr ymgeisydd ymhellach.
229. Ar y llaw arall, awgrymodd eraill dynnu allan y nodweddion diogelwch i leihau rhwystrau a gwneud y cynllun yn symlach.
230. Awgrymodd rhai y dylid ailystyried yr asesiad galluedd meddyliol i wneud y cynllun yn fwy hygyrch drwy fod yn fwy hyblyg o ran beth y gellid ei ddefnyddio fel tystiolaeth ar gyfer diffyg galluedd meddyliol.
231. Teimlai eraill na ddylai cwmnïau gwasanaethau ariannol elwa o'r cynllun gan awgrymu y dylid tynnu allan unrhyw elfennau a allai ychwanegu cost i'r ymgeisydd.

Cwestiwn 42: Pa mor hir a ddylai gymryd i gael caniatâd i wneud / tynnu allan symiau bach ar ran person heb alluedd meddyliol?

Wythnos neu lai	Pythefnos	Llai na mis	Llai na deufis	Llai na chwe mis	Arall	Ddim yn gwybod	Cyfanswm yr ymatebion
41 24%	30 17%	67 39%	18 10%	1 1%	5 3%	10 6%	172

232. Derbyniwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn, gyda 39% o ymatebwyr (67 allan o 170) yn dweud y dylai'r broses gymeradwyo gymryd llai na mis.
233. Nid oedd llawer wedi rhoi ymateb testun rhydd i'r cwestiwn hwn. Roedd y rhai a oedd wedi yn teimlo bod angen digon o amser i wneud gwiriadau diogelwch a lliniaru'r risgiau.

Roedd y tri chwestiwn canlynol ar gyfer cwmnïau gwasanaethau ariannol.

Cwestiwn 43: Pa gostau newydd y byddech yn eu rhagweld o gadw trosolwg ar gynllun taliadau bach ffurfiol yn hytrach na chadw'r trefniadau anffurfiol presennol? Lle bo'n bosibl, rhowch gost unedol fesuredig am bob ymgeisydd.

234. Roedd 11 cwmni gwasanaethau ariannol wedi rhoi ymateb testun rhydd i'r cwestiwn hwn. Dywedodd dros eu hanner y byddai costau ychwanegol o gadw trosolwg ar gynllun taliadau bach, yn amrywio o gostau staff i gostau gweinyddol.
235. Dywedodd rhai y byddai cost i'r ymgeisydd am gael mynediad i'r cynllun, fel ffioedd ar gyfer yr asesiad galluedd a chostau cyfreithiol posibl.

236. Cododd ymatebwyr eraill y pwynt fod angen mwy o fanylion i gostio gweithrediad y cynllun.

Cwestiwn 44: Pa ganran o ddeiliaid cyfrifon / cynhyrchion ariannol unigryw sy'n defnyddio'r trefniadau anffurfiol ar gyfer galluedd meddyliol ar hyn o bryd?

237. Roedd 10 cwmni gwasanaethau ariannol wedi rhoi ymateb testun rhydd i'r cwestiwn hwn. Dywedodd rhai bod llai nag 1% o ddeiliaid cyfrifon neu gynhyrchion ariannol unigryw'n defnyddio'r trefniadau anffurfiol. Tynnodd rhai sylw fod teuluoedd a gofalwyr eisoes yn gofalu'n anffurfiol am arian ar ran unigolion agored i niwed.

Cwestiwn 45: Beth yw gwerth cyfartalog y cynhyrchion canlynol a ddelir gan eich sefydliad?

238. Gofynnwyd y cwestiwn hwn i gynorthwyo gydag asesiad o effaith y polisi hwn. Dim ond dau gwmni gwasanaethau ariannol a atebodd y cwestiwn felly ni restrir eu hatebion yma.

Cwestiwn 46: Beth yn fwy y gellid ei wneud i godi ymwybyddiaeth o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r trefniadau cyfreithiol i ofalu a bod yn gyfrifol am faterion ariannol pobl heb alluedd meddyliol?

239. Roedd 216 ymatebwr wedi rhoi ymateb testun rhydd i'r cwestiwn hwn. Awgrymodd llawer y dylid codi ymwybyddiaeth, er enghraifft, elusennau, banciau a'r cyfryngau yn cynnal ymgyrchoedd hysbysebu addysgol ar y Ddeddf. Awgrymodd rhai ymgyrch farchnata deledu a chyfryngau cymdeithasol.

240. Awgrymodd rhai ymgyrchoedd marchnata wedi eu targedu gan y llywodraeth i 'raeadru' canllawiau'r Ddeddf i oedolion agored i niwed. Awgrymodd eraill y dylid cynnwys y canllawiau yn y llythyr penodi Taliad Annibyniaeth Personol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

241. Teimlai eraill y gallai'r sector gwasanaethau ariannol hefyd godi mwy o ymwybyddiaeth drwy roi canllawiau i gwsmeriaid agored i niwed hysbys ar alluedd meddyliol.

242. Meddyliai eraill y gellid symleiddio'r canllawiau a'r adnoddau presennol ar alluedd meddyliol i'w gwneud yn fwy hygyrch, drwy roi deunyddiau hawdd i'w deall i ofalwyr a rhieni. Ni chyfeiriodd ymatebwyr at unrhyw ganllawiau na deunyddiau penodol.

243. Meddyliai rhai ymatebwyr y dylid hefyd symleiddio'r prosesau presennol gan awgrymu, er enghraifft, cael ffurflen ar-lein i symleiddio'r broses o wneud cais am atwrneiaeth arhosol neu drefniant dirprwy.

244. Awgrymodd ymatebwyr hefyd ddefnyddio ysgolion i godi ymwybyddiaeth o alluedd meddyliol - er enghraifft integreiddio'r wybodaeth yn y canllawiau addysg, iechyd a gofal cymdeithasol ac addysgu myfyrwyr yn uniongyrchol.
245. Awgrymodd eraill y dylid hefyd rhoi hyfforddiant ar y cynllun i bawb perthnasol, gyda rhai'n awgrymu cwrs hyfforddiant yn targedu staff rheng flaen.

Cwestiwn 47: Beth yn fwy y gellid ei wneud i wella dealltwriaeth ac ymgysylltu â'r Llys Gwarchod?

246. Roedd 136 wedi rhoi ymateb testun rhydd i'r cwestiwn hwn, gyda'r atebion yn canolbwyntio ar hygyrchedd, marchnata a buddsoddi yn y Llys Gwarchod.
247. Teimlai llawer y byddai gwella hygyrchedd at broses a chanllawiau'r Llys Gwarchod yn gwella dealltwriaeth ac ymgysylltu â'r Llys Gwarchod. Awgrymodd ymatebwyr y dylid defnyddio iaith symlach a haws ei deall, gwefan hygyrch a hawdd ei defnyddio a chanllawiau cliriach.
248. Awgrymodd ymatebwyr hefyd y dylid codi ymwybyddiaeth drwy ymgyrch farchnata gan y llywodraeth, i roi gwybod i bobl beth y mae'r Llys Gwarchod yn ei wneud.
249. Awgrymodd eraill fuddsoddi yn y Llys Gwarchod, gan gynnwys hyfforddiant i staff i wella eu gwasanaethau er mwyn gallu gwella sgiliau a chodi ymwybyddiaeth ymhlith eraill.

Cwestiwn 48: Beth yw'r rhwystrau, os o gwbl, ym mhroses y Llys Gwarchod?

250. Roedd 111 ymatebwr wedi rhoi ymateb testun rhydd i'r cwestiwn hwn. Roedd y rhwystrau mwyaf cyffredin yn ymwneud â chymhlethdod ffurflenni'r Llys Gwarchod a'r broses o wneud cais, yr amser a gymerai, a'r gost.
251. O ran cymhlethdod, teimlai'r ymatebwyr fod angen adolygu'r ffurflenni oherwydd bod gormod ohonynt, gydag iaith gymhleth a fformatau anodd fel bod angen i bobl ofyn am gymorth i'w llenwi. Dywedodd eraill fod diffyg ffurflen ddigidol hefyd yn rhwystr.
252. O ran amser, dywedodd llawer fod yr amser a gymerai'r Llys Gwarchod i ystyried ceisiadau a gwneud gorchmynion yn rhwystr. Teimlai rhai hefyd ei bod yn cymryd rhy hir i lenwi'r ffurflenni.
253. Yn olaf, o ran cost, dywedodd llawer fod angen gofyn am gymorth cyfreithiwr i lenwi'r ffurflen a bod hynny'n rhwystr oherwydd y gost. Dywedodd eraill fod ffi gwneud cais y Llys Gwarchod yn rhwystr, yn ogystal â chostau cysylltiedig parhaus.
254. Roedd yn glir o'r ymatebion na wyddai llawer o'r ymatebwyr y gallai ffioedd y Llys Gwarchod gael eu hepgor a'u heithrio i rai a oedd angen cymorth gyda ffioedd, yn enwedig ar gyfer Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant.

255. Roedd rhwystrau eraill y cyfeiriwyd atynt yn cynnwys pryder am ddiffyg adnoddau yn y Llys Gwarchod, gan effeithio ar ei ymgysylltu ag ymgeiswyr. Dywedodd rhai hefyd fod argraff y cyhoedd o'r Llys Gwarchod yn rhwystr oherwydd bod y gair 'llys' yn gallu codi braw gan arwain at deimlo bod pobl wedi gwneud rhywbeth o'i le a chymell pobl i beidio â gwneud cais. Roedd rhai'n dadlau hefyd bod diffyg gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r Llys Gwarchod yn creu rhwystr a chyfrannu at wneud i rai pobl deimlo'n anghyfyrrddus wrth wneud cais am drefniant dirprwy.

Cydraddoldeb

Cwestiwn 49: Beth a fyddai effaith pob un o'r opsiynau diwygio arfaethedig a gyflwynir yn y ddogfen ymgynghori hon ar gydraddoldeb ac unigolion gyda nodweddion a warchodir? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

256. Roedd 33 ymatebwr wedi rhoi ymateb testun rhydd i'r cwestiwn hwn.

257. Awgrymodd rhai y byddai'r cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar grwpiau a warchodir drwy wella ansawdd eu bywydau a rhoi mynediad iddynt at eu Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant. Ond roedd eraill yn poeni y byddai hyn yn cael effaith negyddol ar unigolion agored i niwed a phobl oedrannus oherwydd bod llai o ragofalon a'r risg o gam-drin.

258. Dywedodd rhai y byddai'r cynllun yn fwy tebygol o effeithio ar fenywod oherwydd eu bod yn fwy tebygol o fod yn ofalwyr ac o ysgwyddo'r baich gweinyddol.

Cwestiwn 50: A ydych yn cytuno ein bod wedi nodi'n gywir y gwahanol effeithiau ar gydraddoldeb o dan bob un o'r diwygiadau arfaethedig a gyflwynir yn y papur ymgynghori hwn? Rhowch resymau a thystiolaeth o effeithiau pellach ar gydraddoldeb fel y bo'n briodol.

Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod	Cyfanswm yr ymatebion
50 (36%)	17 (12%)	72 (52%)	139

259. Atebodd 36% o'r 139 o ymatebwyr 'ydw' i'r cwestiwn hwn. Roedd dros eu hanner yn ansicr.

260. Roedd 12 o ymatebwyr wedi rhoi ymateb testun rhydd i egluro eu hateb. Nid oedd a wnelo'r rhan fwyaf o'r sylwadau hyn ag effeithiau cydraddoldeb, gan roi adborth ar y cynllun a oedd eisoes wedi'i drafod mewn rhan arall o'r ymateb. Er enghraifft, gwnaed sylwadau ar y cydbwysedd rhwng diogelwch a chael proses syml, a phryderon y byddai'r cynllun yn cyflwyno gormod o ofynion.

261. Roedd sylwadau'n ymwneud â chydraddoldeb yn canolbwyntio'n bennaf ar y risg o gam-drin ariannol i unigolion anabl ac agored i niwed, a phryderon am dynnu hawliau oddi ar unigolion agored i niwed.

Ymateb y llywodraeth

262. Mae'r llywodraeth yn ddiolchgar iawn am yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad hwn.
263. Roedd yr ymgynghoriad yn gyfle i'r llywodraeth ystyried y ddadl dros gynllun taliadau bach – y cyfeiriwyd ato mewn ymgynghoriadau blaenorol fel cynllun rhyddhau taliadau – ac i brofi ein cynigion.
264. Er bod cefnogaeth eang dros gael cynllun a allai ddatrys y rhwystrau ym mhroses y Llys Gwarchod, roedd diffyg consensws ynghylch union natur y cynllun, yn enwedig y rhagofalon a oedd eu hangen ac a fyddai'r cynllun yn symlach na'r prosesau presennol.
265. Teimlai'r rhan fwyaf o ymatebwyr (87%) fod angen cynllun taliadau bach i roi sylw i'r problemau gyda'r system bresennol o wneud ceisiadau i'r Llys Gwarchod, sef ffurflenni cais cymhleth, costau a phrosesau llys hirfaith. Roeddent hefyd yn meddwl bod uchafswm o £2,500 yn rhy isel i gynnig gwerth go iawn gan awgrymu ei godi i £5,000 er mwyn cynnwys nifer fwy o Gronfeydd Ymddiriedolaeth Plant a thaliadau diaros eraill, fel biliau am ffioedd gofal.
266. Roedd diffyg consensws ynghylch rhagofalon er mwyn atal cam-drin, gan gynnwys defnyddio darparwyr geirda, gwiriadau cefndir a throsolwg canolog ar y cynllun gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.
267. Roedd ymatebwyr yn cydnabod pwysigrwydd cael rhagofalon trylwyr i leihau twyll a cham-drin ond yn anghytuno ar natur y rhagofalon hyn ac a oedd y rhai mewn golwg yn gymesur i'r symiau bach o arian a fyddai'n cael eu tynnu allan. Roedd rhai'n poeni y gallai'r cynllun arfaethedig fod yn rhy gymhleth a biwrocraidd. Mae'n bwysig cofio er y byddai'r cynllun yn caniatáu mynediad at symiau cymharol fach o arian, mai dyma'r unig asedau a allai fod gan unigolyn agored i niwed ac felly y dylid eu diogelu'n addas rhag twyll a cham-drin.
268. Awgrymodd nifer o'r cwmnïau gwasanaethau ariannol a atebodd y byddai'r cynllun yn anodd ei weinyddu ac angen ymdrech anghymesur o ystyried y ganran isel (1%) o gwsmeriaid sy'n debygol o ddefnyddio'r cynllun.¹⁵ Roedd llawer ohonynt o'r farn y dylai'r banciau barhau i fod yn gallu gwneud eu dyfarniadau ar sail risg eu hunain cyn rhyddhau symiau bach o arian lle'r oedd angen brys, heb broses ganolog. Dywedodd y cwmnïau hyn hefyd na fyddai'r cynllun yn briodol i'r rhan fwyaf o geisiadau brys y maent yn eu derbyn, sy'n aml, er nad oes llawer, yn gofyn am ryddhau symiau mwy o arian.

¹⁵ Canran wedi'i chyflwyno gan ymatebwr i'r ymgynghoriad.

269. Mae'r ymgynghoriad hwn wedi rhoi tystiolaeth fanwl i ni'n dangos nad oes ffordd syml, ddiogel na diymdroi o ddatrys y mater hwn. Mae bodloni pawb a chynnwys y rhagofalon perthnasol yn rhy sydyn yn creu proses sy'n edrych yn debyg i broses bresennol y Llys Gwarchod. Ar ôl meddwl yn fanwl am y mater hwn, gan ystyried y materion a'r pryderon a godwyd drwy lens y Ddeddf Galluedd Meddyliol, rydym yn cydnabod bod y llywodraeth yn y pen draw wedi dod i gasgliad tebyg i'r hyn y daethpwyd iddo yn 1997. Roedd papur gwyrdd 1997, 'Who decides', yn cyfeirio at y trafferthion ymarferol o roi mynediad at y cynllun cyfrifon ariannol a gynigiwyd gan Gomisiwn y Gyfraith yn eu hadroddiadau yn 1992 a 1995.
270. O ganlyniad, ni fydd y llywodraeth yn ystyried deddfu i gyflwyno cynllun taliadau bach.

Datblygiadau yn y Llys Gwarchod

271. Mae'r Llys Gwarchod yn chwarae rôl hanfodol mewn cynnal egwyddorion y Ddeddf. Mae'n bodoli i wneud penderfyniadau dros ac ar ran oedolion heb alluedd meddyliol i wneud eu penderfyniadau eu hunain ac yn hanfodol i gynnal egwyddorion y Ddeddf.
272. Roeddem yn awyddus i ddeall beth a oedd yn rhwystro unigolion rhag gwneud ceisiadau i'r Llys Gwarchod.
273. Roedd cwestiynau 46 a 47 yn edrych ar y rhwystrau hyn. Yr adborth mwyaf cyson oedd bod proses y Llys Gwarchod ar gyfer cael trefniant dirprwy'n cymryd gormod o amser ac yn ddrud, gyda ffurflenni hir a chymhleth wedi'i godi fel pryder penodol. Roedd diffyg ymwybyddiaeth o'r Ddeddf ymhlith rhieni hefyd, er mae'n debyg y byddai angen awdurdod cyfreithiol ehangach a fyddai'n para'n hirach ar y rhieni hyn (neu unigolion eraill sy'n gofalu am rywun heb alluedd) i wneud gwahanol benderfyniadau'n ymwneud ag iechyd, lles a chyllid. Byddai angen cais i'r Llys Gwarchod i wneud hynny. Felly er y gallai cynllun taliadau bach apelio ar yr olwg gyntaf, ni fyddai o reidrwydd yn cynnig ateb llwyr bob tro.
274. Er hyn, ar wahân i bryderon rhieni am gael mynediad at Gronfeydd Ymddiriedolaeth Plant wedi aeddfedu, roedd llawer o'r ymatebwyr yn derbyn bod y Llys Gwarchod yn cynnig y lefel iawn o arbenigedd a gwarchodaeth. Teimlent mai trefniant dirprwy eiddo a materion ariannol oedd yr un mwyaf priodol i reoli arian, gwahanol gyfrifon, neu symiau mwy o arian, yn hirdymor.
275. Mae'r Llys Gwarchod, ohono'i hun, wedi bod yn awyddus i foderneiddio a gwella ei brosesau a'i amseroedd cwblhau. Yn ystod haf 2021, derbyniodd y Llys Gwarchod feddalwedd er mwyn gallu dechrau edrych ar sut i wella ei brosesau drwy ddulliau digidol. Dechreuodd y Llys Gwarchod adolygu'r broses ceisiadau eiddo a materion ariannol gan edrych ar y camau a oedd yn achosi oedi.

276. Lansiodd cynllun peilot yn ystod hydref 2021 gyda grŵp bach o ddefnyddwyr llys. Roedd dros 166 yn defnyddio'r cynllun peilot yn ystod ei gyfnod prysuraf.
277. Mae defnyddwyr y Llys Gwarchod a'r Llys Gwarchod eisoes wedi gweld manteision y feddalwedd i'r broses o wneud cais am drefniant dirprwy eiddo a materion ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys:
- hawdd ei defnyddio
 - llai o waith papur i'w lenwi
 - ceisiadau mwy cywir
 - amseroedd cwblhau cynt ar gyfer gwneud gorchymyn llys
 - ymgysylltu cynt â'r bobl berthnasol, gan leihau gwrthwynebiadau i geisiadau
278. Mae llawer o'r manteision y tynnwyd sylw atynt yn cynnig atebion i'r feirniadaeth o'r Llys Gwarchod gan ymatebwyr yn eu hatebion i gwestiynau 47 a 48.
279. Nod y Llys Gwarchod yw gwella'r broses ceisiadau digidol yn barhaus drwy leihau nifer y ffurflenni a lleihau ailadrodd rhyngddynt. Mae'r gwasanaeth digidol yn cael ei ddatblygu'n barhaus, a'r nod yn y pen draw yw y bydd pobl yn gallu bwydo gwybodaeth yn syth i borth ar-lein yn hytrach na llenwi a llwytho ffurflenni i fyny. Fodd bynnag, bydd y Llys Gwarchod yn cadw'r broses bapur o wneud cais i sicrhau nad oes neb yn cael eu heithrio.
280. Daeth y cynllun peilot i ben ym mis Rhagfyr 2022, gyda'r gwasanaeth digidol ar gael i ddefnyddwyr proffesiynol y llys a oedd yn gwneud ceisiadau am drefniant dirprwy eiddo a materion ariannol o fis Ionawr 2023 ac i'r cyhoedd o fis Chwefror 2023.
281. Bydd y llywodraeth yn parhau i gael cyswllt â Phrif Weithredwr Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlysoedd EF a defnyddwyr llys, i dderbyn adroddiadau, monitro'r datblygiadau hyn a rhoi cymorth.

Codi ymwybyddiaeth

282. Yn ogystal ag ymatebion i'r ymgynghoriad, dywedodd randdeiliaid eraill er bod Ddeddf wedi bod ar waith ers 2007, nad oes llawer yn ymwybodol o'i bodolaeth neu'n meddwl ei bod ond yn berthnasol i'r henoed. Mae cred eang ond cyfeiliornus bod rhai perthnasoedd teuluol, fel bod yn 'berthynas agosaf' i rywun, yn rhoi'r hawl i chi wneud penderfyniadau ar eu rhan pe byddent yn colli neu heb alluedd meddyliol.
283. Rydym yn arbennig o ymwybodol o'r trafferthion a brofir gan rieni pobl ifanc sydd heb alluedd meddyliol ac nad oeddent efallai'n barod am y goblygiadau cyfreithiol sy'n codi pan fydd eu person ifanc yn troi'n oedolyn. Yn 18 oed, daw cyfrifoldeb y rhieni i ben a chymerir bod pobl ifanc yn dod yn oedolion sy'n gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain. Yn aml iawn nid yw rhieni'n gwybod bod statws cyfreithiol

plant yn newid, ac os nad oes gan eu plentyn alluedd meddyliol, bod angen awdurdod cyfreithiol i wneud penderfyniadau drostynt. Trafodwyd y mater hwn gan y Fforwm Galluedd Meddyliol Cenedlaethol yn y weminar 'Preparing for the cliff-edge of 18'.¹⁶

284. Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, daeth llawer o rieni plant heb alluedd meddyliol yn ymwybodol o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol dim ond ar ôl i Gronfa Ymddiriedolaeth Plant aeddfedu ac iddynt sylweddoli nad oeddent yn gallu cael mynediad awtomatig at y cyfrif.

Codi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol

285. Byddwn yn parhau i weithio gydag adrannau eraill y llywodraeth fel yr Adran Addysg a'r Adran Gwaith a Phensiynau, y Fforwm Galluedd Meddyliol Cenedlaethol, y sector ariannol, elusennau sy'n cynrychioli'r henoed a chynrychiolwyr o'r sector anabledd dysgu, a hefyd gyda'r cyhoedd, i ddatblygu canllawiau a gwybodaeth er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf.

¹⁶ <https://autonomy.essex.ac.uk/covid-19/rapid-response-webinars>

Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr

Sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad

AJ Bell	Forresters Financial
AGE UK	Flint Bishop LLP
Y Gymdeithas Alzheimer	Hargreaves Lansdown
Cymdeithas Yswirwyr Prydain	Keech Foundation
Cymdeithas Undebau Credyd Prydain	Keech Hospice Care Lanyon Bowdler
Cymdeithas y Cwmnïau Cydfuddiannol Ariannol	Cymdeithas y Gyfraith
Banc Iwerddon	Learning Disability England
GIG Caerfaddon a Gogledd-Ddwyrain Gwlad yr Grŵp Bancio Lloyds	
Haf	mfg Solicitors LLP
BLMK CCG	MENCAP
BMO Global Asset Management	Midland Partnership Foundation Trust
Brethertons LLP	NHS North Lincolnshire
Cymdeithas y Cymdeithasau Adeiladu	One Family
Caroline Bielanska Consultancy	Bancio Manwerthu Santander
Cyngor ar Bopeth Lerpwl	Cyfreithwyr ar gyfer Pobl Hŷn (SFE)
Cymdeithas Bar y Llys Gwarchod	Talbots Law
Cymdeithas Ymarferwyr y Llys Gwarchod	TISA
Contact	
Dementia UK	

Atodiad B: Datganiad cydraddoldeb

Cyflwyniad

286. Mae'r dadansoddiad hwn yn edrych ar yr effaith y gallai'r cynigion yn yr ymateb i'r ymgynghoriad ar gynllun taliadau bach ei chael ar gydraddoldeb, a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r asesiad o effaith perthnasol a'r datganiad cydraddoldeb yn y ddogfen ymgynghori wreiddiol.
287. Roedd y cynigion ymgynghori'n ymwneud â phroses newydd yng Nghymru a Lloegr ar gyfer awdurdodi rhyddhau taliadau bach o gyfrif yn enw unigolyn heb alluedd meddyliol, heb fod angen cael atwrneiaeth arhosol na gorchymyn gan y Llys Gwarchod fel y mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn darparu ar ei gyfer ar hyn o bryd.
288. Os nad oes gan oedolyn alluedd meddyliol, mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn darparu fframwaith i adael i'r oedolyn roi awdurdod cyfreithiol drwy benodi atwrneiaeth arhosol, tra bo'r galluedd meddyliol yn dal i fod ganddo, neu fel y gall trydydd partïon gael awdurdod cyfreithiol drwy wneud cais i'r Llys Gwarchod.
289. Ers dod i rym yn 2007, mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol wedi bod yn ddeddfwriaeth hanfodol i warchod unigolion heb alluedd meddyliol a chynorthwyo teuluoedd i baratoi ar gyfer y dyfodol.

Crynodeb o'r cynigion polisi

290. Er bod cefnogaeth i gynllun taliadau bach, nid oedd consensws ynghylch natur a chwmpas priodol unrhyw ragofalon y byddai eu hangen ar gyfer cynllun o'r fath. Roedd yn glir y byddai'r rhagofalon yr oedd gan rai mewn golwg yn golygu cael cynllun tebyg iawn i brosesau presennol y llys, gydag eraill o blaid chwmpas ehangach a fyddai'n cyflwyno risg uwch yn ymwneud ag asedau'r person heb alluedd.
291. Ar ôl dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad, nid ydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cynigion ar gyfer cynllun taliadau bach. Ond byddwn yn cynnal rhaglen codi ymwybyddiaeth i annog unigolion i ddefnyddio'r prosesau a'r rhagofalon presennol sydd ar gael yn y Ddeddf Galluedd Meddyliol, fel penodi atwrneiaeth arhosol neu wneud cais i'r Llys Gwarchod am orchymyn dirprwy. O ran y feirniadaeth o broses gwneud cais y llys, byddwn yn parhau i gefnogi cynigion i wella prosesau ac effeithlonrwydd y llys, gan gynnwys parhau i gyflwyno proses ddigidol o wneud cais sydd wedi'i pheilota'n llwyddiannus ac sydd wedi bod ar gael i ddefnyddwyr proffesiynol y llys ers Ionawr 2023 ac i holl ddefnyddwyr y llys sy'n gwneud ceisiadau

eiddo a materion ariannol ym mis Chwefror 2023. Er mwyn hwyluso'r newidiadau, mae fersiynau papur a digidol y ffurflenni llys yn cael eu hadolygu er mwyn symleiddio'r cynnwys a dileu unrhyw ddyblygu. Proses o berffeithio wrth fynd yw hyn a bwriedir profi ac adolygu'r ffurflenni'n barhaus i wneud gwelliannau ar sail adborth a ddaw i law.

Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

292. Mae'r datganiad cydraddoldeb hwn yn cofnodi dadansoddiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder er mwyn cwrdd â gofynion Dyletswydd Gydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn unol ag adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010.
293. Mae hyn yn rhoi dyletswydd ar weinidogion a'r adran, wrth gyflawni eu swyddogaethau, i roi 'sylw dyledus' i'r angen i:
- ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth a mathau eraill o ymddygiad a waherddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
 - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau (pobl sy'n rhannu nodwedd berthnasol a warchodir a phobl nad ydynt)
 - meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau (y rheini sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rheini nad ydynt yn ei rhannu)
294. Wrth ddatblygu ein cynigion polisi, rydym wedi ystyried y naw nodwedd a warchodir:
- hil
 - rhyw
 - oed
 - anabledd
 - cyfeiriadedd rhywiol
 - crefydd neu gred
 - beichiogrwydd a mamolaeth
 - ailbennu rhywedd
 - priodas neu bartneriaeth sifil
295. Mae'r dadansoddiad cydraddoldeb hwn yn asesu effeithiau disgwylidig y cynigion ar unigolion gyda nodweddion a warchodir, yng Nghymru a Lloegr. Mae'r dadansoddiad hefyd yn asesu'r effeithiau disgwylidig ar grwpiau eraill dan anfantais neu yr effeithir arnynt, yng Nghymru a Lloegr.

Ymgysylltu a chynnwys

296. Cyn yr ymgynghori, dangosodd ymgysylltu â rhanddeiliaid y dylem ystyried yr effaith yn enwedig ar unigolion gyda'r nodweddion a warchodir penodol o oed, anabledd, hil a rhyw, i sicrhau bod y cynllun taliadau bach yn hygyrch i bawb.
297. Cawsom 225 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd 223 o'r rhain wedi cael eu dadansoddi (roedd dau naill ai'n ymatebion gwag neu ddyblyg). Ymgysylltwyd, dros y cyfnod ymgynghori, â rhanddeiliaid i gasglu mwy o dystiolaeth o'r effaith y byddai cynigion yr ymgynghoriad yn ei chael ar unigolion gyda nodweddion a warchodir.

Tystiolaeth a dadansoddiad

298. Ychydig iawn o wybodaeth am nodweddion demograffig cwsmeriaid a gesglir gan y broses o wneud cais ar gyfer unrhyw fath o gyfrif banc neu fuddsoddiad ariannol.

Yr unig wybodaeth a gesglir ar hyn o bryd yw:

- oed y cwsmer, ar sail ei ddyddiad geni

Ni chesglir gwybodaeth ar hyn o bryd am:

- hil neu ethnigrwydd
- anabledd
- cyfeiriadedd rhywiol
- crefydd neu gred
- beichiogrwydd neu famolaeth
- ailbennu rhywedd
- priodas neu bartneriaeth sifil

299. Fodd bynnag, roedd data gan y Llys Gwarchod yn cyflwyno peth dystiolaeth o'r effaith y gallai cynllun taliadau bach ei chael ar unigolion gyda rhai o'r nodweddion a warchodir ac roeddem yn gobeithio casglu dystiolaeth drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

300. Rydym wedi annog ymatebwyr i dynnu sylw at unrhyw faterion cydraddoldeb a chyfeirio at unrhyw ddata a thystiolaeth sy'n mesur yr effaith. Ystyriwyd yr ymatebion hyn a rhoddir crynodeb ohonynt isod.
301. Allan o'r 223 o ymatebion a ddadansoddwyd gennym, roedd 33 wedi ateb **cwestiwn 49**: Beth a fyddai effaith pob un o'r opsiynau diwygio arfaethedig a gyflwynir yn y ddogfen ymgynghori hon ar gydraddoldeb ac unigolion gyda nodweddion a warchodir? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

302. Roedd ymatebwyr yn poeni am yr effaith negyddol ar unigolion agored i niwed a phobl oedrannus oherwydd y byddai llai o ragofalon a'r risg o gam-drin.
303. Roedd ymatebwyr yn rhanedig yn eu hymateb. Awgrymodd rhai y byddai'r cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar grwpiau a warchodir drwy wella ansawdd eu bywydau a rhoi mynediad iddynt at eu cyfrifon. Roedd eraill yn bryderus am yr effaith ar fenywod, fel y rhai a oedd fwyaf tebygol o fod yn gofalu ac a fyddai felly'n gorfod ysgwyddo'r baich gweinyddol o wneud cais i ryddhau taliadau bach.
304. Roedd **cwestiwn 50** yn gofyn: A ydych yn cytuno ein bod wedi nodi'n gywir hyd a lled yr effeithiau ar gydraddoldeb o dan bob un o'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn? Rhwch resymau a thystiolaeth o effeithiau pellach ar gydraddoldeb fel y bo'n briodol.
305. Atebodd 36% o'r 139 o ymatebwyr 'ydw' i'r cwestiwn hwn. Atebodd 12% 'nac ydw' ac atebodd 52% 'ddim yn gwybod'.
306. Yn hytrach na chyflwyno tystiolaeth o effeithiau penodol ar nodweddion a warchodir, defnyddiwyd y cwestiynau gan y rhai a atebodd y cwestiynau cydraddoldeb i drafod effeithiau posibl y cynigion ar hawliau unigolion agored i niwed a'r cyfle y byddai'r cynllun yn ei gyflwyno i gam-drin unigolion yn ariannol.

Dadansoddiad

Oedran

307. O ran y cynigion ar gyfer y cynllun, roedd rhai ymatebwyr yn poeni bod y cynllun yn rhoi cyfle i gam-drin pobl oedrannus a bod gwarchodaeth well ar gael drwy gael yr awdurdod cyfreithiol cywir naill ai drwy atwrneiaeth arhosol neu orchymyn gan y Llys Gwarchod.
308. Dangosodd ymgysylltu â rhanddeiliaid dros y cyfnod ymgynghori fod cwmnïau gwasanaethau ariannol yn amau bod nifer o ffyrdd answyddogol o gael mynediad at arian pobl hŷn yn digwydd, er enghraifft drwy rannu rhifau PIN cardiau debyd, yn lle cael yr awdurdod cyfreithiol priodol. Soniodd cwmnïau hefyd am gwsmeriaid yn gofyn am gael mynediad at arian ar ran perthnasoedd oedrannus a chael gwybod bod angen gorchymyn gan y Llys Gwarchod.
309. Roedd hyn, ynghyd â'r dystiolaeth gan ymatebwyr, yn cadarnhau'r ymwybyddiaeth isel ymhlith pobl hŷn o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol ac y byddai codi ymwybyddiaeth a gwella proses geisiadau'r llys yn ateb y broblem yn well na chyflwyno cynllun newydd i gael mynediad at daliadau gwerth isel. Byddwn yn parhau i ystyried sut i godi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol i sicrhau bod pawb dros 18 oed yn gallu paratoi ar gyfer y dyfodol, fel penodi atwrneiaeth arhosol.

Oedolion ifanc

310. Roedd llawer o ymgyrchwyr dros gynllun taliadau bach yn lleisio pryderon penodol am gael mynediad at Gronfeydd Ymddiriedolaeth Plant ar ran eu plant a oedd bellach yn oedolion. Cynilion di-dreth tymor hir a sefydlwyd gan y llywodraeth yn 2002 yw Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant. Aeddfedodd y cyntaf o'r cyfrifon hyn yn 2020 ar ôl i'r deiliaid cyfrif hynaf droi'n 18 oed. Ar y pryd, hysbyswyd llawer o rieni a gofalwyr am oedolion ifanc oedd heb alluedd meddyliol i ddelio â materion ariannol fod angen naill ai cael atwrneiaeth arhosol neu orchymyn gan y Llys Gwarchod i gael mynediad i'r cyfrif. Roeddent yn teimlo bod y broses o wneud cais i'r llys yn rhy araf, beichus ac yn anghymesur â'r arian bach sydd mewn Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant wedi aeddfedu.
311. Roedd llawer o rieni oedolion ifanc wedi ymateb i'r ymgynghoriad. Er eu bod o blaid y cynllun, nid oeddent yn cytuno â'r rhagofalon arfaethedig dros gael system weinyddol syml i gael mynediad at gyfrifon. Fodd bynnag, credwn y byddai cyflwyno cynllun heb y rhagofalon iawn yn cael effaith negyddol ar y grŵp oed hwn heb alluedd meddyliol oherwydd na fyddai'n gwarchod eu hasedau'n ddigonol a gallai eu gadael yn fwy agored i gam-drin neu gamddefnyddio eu harian.
312. Roedd yr ymatebi i'r ymgynghoriad yn cadarnhau'r dystiolaeth a gasglwyd cyn yr ymgynghoriad bod ymwybyddiaeth isel o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol, y Llys Gwarchod ac atwrneiaeth arhosol ymhlith rhieni a gofalwyr pobl ifanc 16-18 oed sydd ag anabledd dysgu, sy'n broblem sylfaenol ehangach o ran mynediad at Gronfeydd Ymddiriedolaeth Plant.¹⁷ Nid yw rhieni'n gwybod yn aml ei bod yn bosibl gwneud cais i'r Llys Gwarchod cyn i'w plant droi'n 18 oed i ryddhau arian o gyfrif ar ôl i'r cyfrif aeddfedu.
313. Yn lle deddfu dros sefydlu cynllun taliadau bach, bwriadwn godi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol ymhlith rhieni oedolion ifanc, ysgolion anghenion addysgol arbennig ac anabledd, elusennau sy'n cynrychioli'r sector anabledd dysgu, a darparwyr Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant.
314. Dylai'r datblygiadau gyda phroses y Llys Gwarchod o wneud ceisiadau eiddo a materion ariannol arwain at brosesu ceisiadau am orchymyn llys yn gynt, er mwyn cael mynediad at Gronfeydd Ymddiriedolaeth Plant.

¹⁷ Cyflwynwyd dystiolaeth gan weminar y Fforwm Galluedd Meddyliol Cenedlaethol 'Approaching the cliff edge' a ddarlledwyd ar 15 Mehefin 2021. Dywedodd y rhai a gofrestrodd ar gyfer y weminar fod dealltwriaeth wael o'r Ddeddf Galluedd Meddylion ymhlith y gwasanaethau plant a chyfeiriwyd at y trafferthion mawr a brofir gan rieni ar ôl deall nad oes ganddynt mwyach gyfrifoldeb rhiant dros wneud penderfyniadau pan fydd eu plentyn yn 18 oed.

315. Ein casgliad felly yw y byddai'r camau arfaethedig hyn yn cael effaith fwy cadarnhaol ar y grŵp oed hwn a'r problemau a brofir gyda Chronfeydd Ymddiriedolaeth Plant, na chyflwyno cynllun gyda rhagofalon a allai fod yn debyg iawn i broses bresennol y llys.

Rhyw

316. Yn ôl data'r Llys Gwarchod rhwng 2011 a 2021, roedd 57,384 o geisiadau dirprwy eiddo a materion ariannol yn ymwneud â menywod, a 42,853 yn ymwneud â dynion. Efallai fod hyn oherwydd y disgwylir i fenywod fyw'n hŷn ac felly'n fwy tebygol o gollir galluedd i wneud rhai penderfyniadau oherwydd cyflyrau'n ymwneud â heneiddio, fel dementia.¹⁸ Felly, gallai'r cynigion a gyflwynir yn yr ymgynghoriad, ac yn ein hymateb, gael mwy o effaith ar fenywod na dynion. Soniodd rhai ymatebwyr, oherwydd bod menywod yn fwy tebygol na dynion o fod yn ofalwyr, eu bod hefyd yn fwy tebygol o geisio cael mynediad at arian person heb alluedd ac y gallai'r cynigion effeithio arnynt mewn dwy ffordd felly.
317. Bydd y cynigion yn yr ymateb i'r ymgynghoriad yn cadw rhagofalon presennol y Ddeddf ac yn sicrhau na fydd effaith negyddol ar ferched o ganlyniad i unrhyw lefel o warchodaeth a roddir gan gynllun ar wahân. Dylai cyflwyno proses ddigidol o wneud cais yn y Llys Gwarchod, a'r gwaith parhaus o symleiddio ffurflenni'r llys, gael effaith gadarnhaol ar ferched sydd fwyaf tebygol o fod yn ymgeiswyr.

Hil

318. Ni soniodd yr un ymatebwr am effaith ar hil. Er hynny gwyddom fod tarddiad ethnig yn chwarae rôl ym mywydau ariannol pobl a bod gwahaniaethau tarddiad ethnig yn y defnydd a wneir o rai gwasanaethau a chynhyrchion manwerthu.¹⁹
319. Mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn ymwybodol bod pobl o gefndiroedd lleiafrifol ethnig yn llai tebygol o fod ag atwrneiaeth arhosol. Mae hyn yn dangos nad oes llawer o ymwybyddiaeth o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol. Mae'n golygu hefyd eu bod nhw, neu eu perthnasoedd neu ofalwyr, efallai'n fwy tebygol o fod angen defnyddio proses bresennol y llys i gael gorchymyn sy'n caniatáu mynediad at gyfrifon ariannol.
320. Ein barn ar hyn o bryd yw na fydd gweithredu'r cynllun yn cael effaith negyddol ar bobl gyda'r nodwedd a warchodir o hil, o'i gymharu â grwpiau eraill, oherwydd y bwriedir cadw'r rhagofalon yn y Ddeddf. Fodd bynnag, byddwn yn ymgysylltu â chyrrff trydydd sector sy'n gweithio'n benodol gyda chymunedau ethnig lleiafrifol i godi

¹⁸ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2020). National life tables – life expectancy in the UK. Ar gael yn: <https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/lifeexpectancies/datasets/nationallifetablesunitedkingdomreferencetables>

¹⁹ Adroddiad Trosolwg gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol / Adroddiad financial lives 2020 yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

ymwybyddiaeth o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a ddylai, yn ei dro, gynnig manteision a gwarchodaeth i rai gyda'r nodwedd a warchodir hon.

Anabledd

321. Ni soniodd yr un ymatebwr am effaith ar anabledd. Gall anabledd fod yn nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith negyddol 'sylweddol' a hirdymor' ar eich gallu i wneud gweithgareddau arferol pob dydd. Nid yw'r sector ariannol yn casglu data ar anabledd ac felly ni wyddom faint o ddeiliaid cyfrifon sydd â'r nodwedd a warchodir hon. Mae'r Ddeddf yn rhoi cymorth ac yn grymuso pobl sydd efallai heb alluedd meddyliol, yn ogystal â gadael i bobl gynllunio ymlaen llaw ar gyfer amser yn y dyfodol pryd na fydd ganddynt alluedd o bosibl.
322. Bydd y cynigion yn yr ymateb i'r ymgynghoriad yn cadw rhagofalon presennol y Ddeddf ac yn sicrhau na fydd effaith negyddol ar bobl anabl o ganlyniad i unrhyw lefel wahanol o warchodaeth a roddir gan gynllun ar wahân. Mae'r llywodraeth yn teimlo y bydd mwy o godi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf yn rhoi canlyniadau a gwarchodaeth well i rai sydd ag anabledd fel nodwedd a warchodir, yn hytrach na gweithredu ateb deddfwriaethol drwy gynllun taliadau bach, o ystyried y casgliadau y daethpwyd iddynt ynghylch cynigion o'r fath yn yr ymateb i'r ymgynghoriad.

Crefydd neu gred

323. Nid oedd yr un ymateb yn nodi effaith bosibl ar arferion crefyddol a normau diwylliannol mewn crefyddau lleiafrifol.

Nodweddion eraill

324. Ni soniodd yr un ymatebwr am effeithiau ar dueddiad rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd, mamolaeth na phriodas a phartneriaeth sifil.

Ystyriaethau cydraddoldeb

Gwahaniaethu uniongyrchol

325. Ni chredwn y byddai'r penderfyniad i beidio â chyflwyno cynllun taliadau bach yn arwain at drin pobl yn llai ffafriol oherwydd nodwedd a warchodir. Bydd fframwaith y Ddeddf ar gyfer penodi atwrneiaeth arhosol neu gael awdurdod cyfreithiol i gael mynediad at eiddo oedolyn arall sydd heb alluedd meddyliol yn parhau.

Gwahaniaethu anuniongyrchol

326. Rydym yn credu bod pobl hŷn a merched heb alluedd meddylion yn cael eu gorgynrychioli.
327. Bydd unigolion heb alluedd meddyliol yn parhau i elwa o ddarpariaethau'r Ddeddf Galluedd Meddyliol. Credwn na fydd y penderfyniad i beidio â chyflwyno cynllun taliadau bach yn cyflwyno dim mwy o anfantais i bobl hŷn a merched, a allai arwain

at wahaniaethu anuniongyrchol. Bydd cynyddu ymwybyddiaeth o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol, ynghyd â diwygio prosesau'r llys, yn ymateb mwy cymesur i'r problemau dan sylw ac yn sicrhau bod pobl yn cydnabod hawliau a'r warchodaeth ar gyfer unigolion heb alluedd meddyliol yn well, gan gynnwys y grwpiau hyn.

Gwahaniaethu ar sail anabledd a dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol

328. Cyn belled ag y bo'r penderfyniad i beidio â chyflwyno cynllun taliadau bach yn ymestyn i gynnwys unigolion anabl heb alluedd meddyliol, credwn fod y polisi'n gymesur ac yn ystyried ei nod. Bydd gwella proses geisiadau'r Llys Gwarchod ar gyfer trefniant dirprwy eiddo a materion ariannol yn arwain at gymorth cynt i unigolion heb alluedd meddyliol.

Aflonyddu ac erledigaeth

329. Nid ydym o'r farn y bydd y cynigion hyn yn arwain at aflonyddu nac erledigaeth.

Hyrwyddo cyfle cyfartal

330. Rydym wedi ystyried sut y mae peidio â chyflwyno'r cynllun taliadau bach yn effeithio ar y ddyletswydd i ddatblygu cyfle cyfartal drwy gwrdd ag anghenion unigolion heb alluedd meddyliol sy'n rhannu nodwedd benodol, os yw'r anghenion hynny'n wahanol i anghenion yr unigolion hynny nad ydynt yn rhannu'r nodwedd benodol honno. Yn ein barn ni, mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r egwyddor o gael yr awdurdod cyfreithiol cywir drwy atwrneiaeth arhosol, neu drefniant dirprwy gan y Llys Gwarchod, yn ffyrdd gwell o warchod pobl heb alluedd meddyliol.

Meithrin perthynas dda

331. Wedi ystyried yr amcan hwn, nid yw'n debygol iawn o fod yn berthnasol i'r cynigion.

Casgliad

332. Byddwn yn parhau i ystyried effaith codi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol, a'r gwelliannau yn y llys, ar gydraddoldeb. Mae hyn yn bwysig i sicrhau na wystrir unigolion gyda nodweddion a warchodir yn y dyfodol.

Atodiad C: Prawf effaith ar y Gymraeg

333. O'r 225 o ymatebion i'r ymgynghoriad, roedd un gan sefydliad a ddywedodd ei fod wedi ei leoli yng Nghymru. Roedd yr ymateb yn codi pwyntiau tebyg i'r rhai a gawsom gan ymatebwyr yn Lloegr, sef y gallai'r cynllun lastwreiddio effeithiolrwydd y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Ni wnaed sylw ar unrhyw effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau Cymraeg, darparu gwasanaeth Cymraeg, nac ar wasanaethau drwy'r Gymraeg.

Aseiad Effaith

Mae aseiad effaith wedi'i baratoi a bydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymateb hwn.

Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion sydd i'w mabwysiadu gan adrannau llywodraeth a chyirff cyhoeddus eraill ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi eu hamlinellu yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf



© Hawlfraint y Goron 2023

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i:
nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Os ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i

MCAsmallpaymentsconsultation@justice.gov.uk